

Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 529 • Mawrth 2022 • 50c

Dathlu Gŵyl Dewi - Tan Gwmwl

Plant Carmel, Caellwyngrydd

Bore Sul, 27 Chwefror cynhaliwyd gwasanaeth dathlu Gyl Dewi yng Nghapel Carmel, Caellwyngrydd. Roedd y gwasanaeth yng ngofal pobl ifanc y Clwb Dwylo Pysur ac aelodau'r Ysgol Sul a chafwyd bendith o'r canu, darllen ac adrodd. Ond roedd y rhyfel yn Wcráin yn gwmwl du dros y gwasanaeth, gyda'r pryder am blant a phobl y wlad honno'n amlwg ym meddyliau y plant a'r gynulleidfa. Yn ystod y cyfarfod fe wnaed casgliad ariannol a chafwyd swm o £100. Y penderfyniad oedd i anfon yr arian i Apêl Wcráin. Dros y deuddydd nesaf tyfodd y cyfanswm i £260, drwy haelioni aelodau Clwb Gwau y capel a chyfeillion lleol. Ar Ddydd Gŵyl Dewi fe drosglwyddodd Mrs Helen Williams yr arian i ofal Cymorth Cristnogol a hwy fydd yn gyfrifol am ei anfon i gronfa Wcráin.



Y Cyfaill Cymunedol – Dyffryn Gwyrdd



Mae'r digwyddiadau Prynhawniau Coffi a drefnir gan dîm y Dyffryn Gwyrdd wedi parhau i fod yn brysur yng Nghanolfan Cefnfaes. Mwynhawyd sesiynau difyr ac amrywiol ar amrywiol o bynciau, fel, sesiwn crefftau, cerdd ac ati. Manylion pellach ar gael am y digwyddiadau hyn gan Anna.

PRYDAU MAETHLON

Mae'r danfoniadau prydau maethlon o Gaffi Coed y

Brenin wedi bod yn brysur yn ystod y gaeaf. O hyn allan dim ond ar ddydd Iau bydd y gwasaneth yma ar gael.

TEITHIAU

Mae nifer o deithiau cymdeithasol wedi'u trefnu. Eisioes mwynhawyd teithiau i siop pringles, Llanfairpwll a Llandudno ac mae teithiau eraill ar y gweill dros yr wythnosau nesaf.

Cysylltwch ag anna@ogwen.org am fwy o fanylion neu ffoniwch 07394906036



www.llaisogwan.com



@Llais_Ogwan

Panel Golygyddol

Ieuan Wyn

(Ffôn 600297)

ieuanwyn01@gmail.com

Lowri Roberts

(Ffôn 07815 093955)

l.roberts11@btinternet.com

Neville Hughes

(Ffôn 600853)

nev_hughes@btinternet.com

Dewi A Morgan

(Ffôn 602440)

dewimorgan@live.co.uk

Trystan Pritchard

(Ffôn 07402 373444)

trystanrp1@gmail.com

Walter a Menai Williams

(Ffôn 601167)

waltermenai@yahoo.co.uk

Rhodri Llŷr Evans

(Ffôn 07713 865452)

Rhodri.llyr.evans@gmail.com

Owain Evans

(Ffôn 07588 636259)

owain.evans1@gmail.com

Carwyn Meredydd

(Ffôn 07867 536102)

carwynian@hotmail.com

Rhys Llwyd

(Ffôn 01248 601606)

rml42@live.co.uk

Dilwyn Pritchard,

(Ffôn 01248 601880)

d.pritchard@btinternet.com

Swyddogion

CADEIRYDD:

Dewi A Morgan, Park Villa,

Lôn Newydd Coetmor,

Bethesda, Gwynedd

LL57 3DT (Ffôn 602440)

dewimorgan@live.co.uk

TREFNYDD HYSBYSEBION:

Neville Hughes, 14 Pant,

Bethesda LL57 3PA (Ffôn 600853)

nev_hughes@btinternet.com

YSGRIFENNYDD:

Gareth Llwyd, Talgarnedd,

3 Sgwâr Buddug, Bethesda

LL57 3AH (Ffôn 601415)

garethllwyd197@btinternet.com

TRYSORYDD:

Godfrey Northam, 4 Llwyn

Bedw, Rachub, Llanllechid

LL57 3EZ (Ffôn 600872)

godfreydnortham@hotmail.co.uk

Y LLAIS DRWY'R POST:

Owen G Jones, 1 Erw Las,

Bethesda, Gwynedd

LL57 3NN (Ffôn 600184)

post@llaisogwan.com

Golygydd y Mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan
Dilwyn Pritchard.Y golygydd ym mis **Ebrill** fydd**Rhodri Llŷr Evans**, 2 Rhos y Nant,

Bethesda, LL57 3PP

07713 865452

E-bost: Rhodri.llyr.evans@gmail.com

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn**,
26 Mawrth os gwelwch yn dda.

Casglu a dosbarthu

Nos Iau, 14 Ebrill

yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45

DALIER SYLW: NID OES GWARANT
Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD
YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD
CAU YN CAEL EI GYNNWYS.

Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

Gwobrau Chwefror

£30.00 (113) **Brenda Hughes**,

Arafa Don, Bethesda.

£20.00 (12) **Dennis Dart**, Rhos y Nant,

Bethesda.

£10.00 (151) **Lester Bath**, Ffordd

Ffrydlas, Bethesda.

£5.00 (38) **Beryl Wynne Edwards**,

Sgwâr Buddug, Bethesda

Diolch yn fawr

Londis Bethesda

☎ 01248 605566

Archfarchnad hwylus

a Swyddfa Bost

Gwasanaeth personol

gyda'r pwyslais ar y cwsmer

Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwyr

Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr

7 diwrnod yr wythnos

JOHN ROBERTS

Paentiwr

Papurwr

Teilsiw

Symudol: 07747 628650**Ffôn: 01248 600995**Ariennir yn Rhannol gan
Lywodraeth Cymru

CYMRAEG

Rhoddion i'r Llais

- £20.00 Er cof am J. O. Roberts, Penybryn, oddi wrth Wendy, John a'r teulu, Garneddwen.
- £20.00 Er cof am Emyr Roberts, Ffordd Ffrydlas, Bethesda, gan ei briod, Margaret a'r teulu.
- £20.00 Er cof am Derek, gynt o Stryd Glanafon, Bethesda, a fu farw 22.02.2012, oddi wrth ei fam, Joyce, a'r teulu.
- £4.50 Carys Thomas, Rhos Douglas, Bethesda.
- £100.00 Clwb Henoed Llanllechid.
- £1.50 Di-enw.
- £12.00 Gillian Taylor-Williams, 13 Glan Ffrydlas, Bethesda.
- £20.00 Er cof am Janice Thomas ac Elwyn Roberts, oddi wrth Eileen Roberts, "Llygad yr Haul", 86 Ffordd Carneddi.

Diolch yn fawr.

Dirywiad Eglwysi

Gwyddom er peth amser fod pwyllgorau apêl codi arian ar gyfer atgyweirio eglwysi Glanogwen a Llandygai yn gweithio fel lladd nadredd i geisio'r symiau enfawr sydd eu hangen i sicrhau dyfodol y ddwy eglwys. Erbyn hyn deallir bod dwy eglwys arall yn y Dyffryn yn wynebu codi symiau mawr o arian i atgyweirio'r adeiladau. Mae aelodau eglwysi St. Cedol, Pentir a Santes Mair, Y Gelli yn Nhregarth wedi derbyn y newyddion drwg yn dilyn archiliadau o'r eglwysi. Ofni mae'r aelodau yr aiff yr adeiladau i gyflwr mor ddrwg fel na ellir eu defnyddio.

O fewn y Dyffryn mae dwy eglwys wedi eu gwerthu ers peth amser, sef, Eglwys St Annes, Mynydd Llandygai ac Eglwys Llanllechid. Gwerthwyd y ddwy rhai blynyddoedd yn ôl bellach, ond mae'r ddwy yn dal heb ddefnydd o unrhyw fath. Yn wir, mae St Annes yn prysur fynd a'i phen iddi, tra yn Llanllechid, ni welwyd y prynwr yno ers amser maith. Mae'r pwyllgorau apêl yn awyddus nad aiff eglwysi eraill yn y Dyffryn i'r un cyflwr. Ond ym Mynydd Llandygai mae llwyddiant addasu yr hen eglwys Santes Mai yng nghanol y pentref yn calonnogi pawb. Wedi cau St Annes penderfynwyd i addasu'r adeilad at ddefnydd y pentrefwyr, ac wedi gwaith caled, mae'r eglwys yn cael defnydd llawn gan y trigolion.

Mewn cyfnod o helyntion mewn rhannau o'r byd y dyddiau yma onid yw'n bwysig fod mannau fel yr eglwysi yn le caiff y bobl leol fynd i weddio am heddwch drwy'r byd.

Rhiwlas

Iona Jones, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
ionarhiwen@hotmail.co.uk (01248 355336)

Merched y Wawr

Cyfarfu'r gangen yn y Neuadd lle bu trafod ar gyfrol John Davies, "Cymru y 100 lle i'w gweld cyn marw" a Marian Delyth fu'n gyfrifol am luniau y gyfrol. Roedd yr aelodau'n enwi eu hoff lefydd gan edrych a oedd y lle wedi ei ddewis gan yr awdur. Ynys Enlli a ddaeth i'r brig gan yr aelodau ac er syndod nid oedd Enlli ar restr John Davies. Roedd Carys am ymweld eto â Charnedd Gwenllian a Kate am am gael mynd i'r Ardd Fotaneg Genedlaethol. Roedd ymweld â henebion hefyd yn boblogaidd.

Cydymdeimlo

Yn ystod y cyfarfod roeddem yn drist o glywed am farwolaeth Gwenno Evans a hithau'n 89 mlwydd oed. Anfonwyd ein cofion a'n cydymdeimlad at Nia Jones, Penllyn, ei merch. Bu Gwenno'n aelod o Gangen Bethesda am flynyddoedd a phan ddaeth y Gangen i ben fe ddaeth hi, gydag hanner dwsin o'r gangen, i ymuno â changen Rhiwlas. Roedd yn selog yn y cyfarfodydd a bydd chwithdod mawr ar ei hôl. Rydym yn ei chysylltu â Bethesda ond fe'i magwyd yn Nhŷ'r Ysgol yn Rhiwlas. Ychydig o fisoedd oed ydoedd pan symudodd y teulu i'r pentref. Roedd ei thad Mr J T Davies wedi bod yn brifathro yn Rhydyclafdy cyn symud i Ysgol Rhiwlas. Aeth hi ymlaen i'r Coleg Normal a chael

ei swydd gyntaf yn Ysgol Talwrn. Yn 1954 fe briododd ag Emlyn yng Nghapel Ysgoldy gan fyw ym Mhorthaethwy cyn symud i'r Gerlan ac yna i Coetmor. Bu'n athrawes yn ysgolion Gerlan ac Abercaseg.

Y Raffl

Dilys enillodd y raffl yn roddedig gan Linda. Rydym yn cyfarfod yn y pwn ar y funud, yr ail ddydd Mawrth yn y mis am hanner awr wedi un o'r gloch. Croeso i gyn aelodau a rhai newydd. Cawsom wybodaeth am ddigwyddiadau yn y pentref, yn eu plith darlithoedd gan Cynrig, un yn sôn am deulu a ymfudodd i Batagonia a sesiynau loga. Y cyntaf i'r felin gaiff fod yn y sesiynau loga yma gan mai lle i 12 yn unig fydd yn y grŵp.

Dathlu

Yn ddiweddar dathlodd Iola ac Ifor Hughes, Cae Glas, pen-blwydd priodas Dieamwnt, 60 mlynedd o fywyd priodasol. Llongyfarchiadau a chofion mawr atoch gan obeithio eich bod yn cadw'n o lew.

CLWB MODURO

Mae Siân Wyn, gynt o Cae Glas ond yn awr yn byw yn Llanberis yn aelod o glwb moduro *Midnight Runners* sy'n cyfarfod ym Mangor. Mae'r grŵp yn ymwybodol nad yw pawb yn cytuno â'r rasio ond y maent hefyd yn rhoi pwyslais ar yr ochr fecanyddol. Bu rhaglen amdanynt ar y teledu ac roedd Siân yn dangos mor ddeheuig ydoedd gyda'r peiriannau. Da iawn ti Siân.

Carnifal Bethesda

Dyddiadau Pwysig

09/04/22 – Bore Coffi yng Nghanolfan Cefnfaes: Raffl ar werth yn ogystal â raffl ar lein.
14/05/22 – Seremoni Coroni yn Neuadd Ogwen.
21/05/22 – 1:00 y prynhawn Y Carnifal – Y Parêd i gychwyn o Faes Parcio Clwb Pêl-droed Bethesda.

Llongyfarchiadau i osgorddlu'r carnifal

Nel Glyn Roberts Tregarth (Brenhines)
Cian John Roberts, Carneddi (Brenin)
Marilena D'Amora Ffordd Bangor (Tywysoges)
Gruff Rhys Owen, Rhos y Coed, (Tywysog)
Bydd eu gwisgoedd yn cael eu harddangos yn ffenest siop Partneriaeth Ogwen, rhwng y ddwy fynedfa i Gae Star o ddydd Llun 16eg o Fai tan ddydd Gwener 21ain o Fai. Ac yn ôl traddodiad bydd croeso i unrhyw un eu hanrhegu ar noson y coroni.
Bydd mwy o hanes a gwybodaeth am gystadlaethau'r Carnifal yn rhifyn Ebrill.

L. Sturrs
a'i feibion
sefydlwyd yn 1965
ADEILADWYR

Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda
Ffôn: 600953
lsturrs@googlemail.com

Cofio Cyngerdd Gŵyl Dewi

Gyda dyfodiad mis Mawrth unwaith eto, hel atgofion y mae Gwen Davies, Tanysgrafell. Blynnyddoedd yn ôl yn ein capel ni - Capel Bethesda roedd edrych ymlaen garw am y Cyngerdd Gŵyl Dewi blynnyddol. Wedi gwaith caled gan y pwyllgor a'r aelodau erbyn noson y cyngerdd sef, y nos Fercher agosaf i 1 Fawrth roedd popeth yn eu lle, yr artistiaid i gyd wedi eu henwi.
Roedd pawb bellach yn barod am noson arbennig. Byddem ni, y merched, yn edrych ymlaen at weld gwisgoedd yr artistiaid benywaidd - roedd y dynion yn smart iawn

hefyd yn eu *Tuxedos*.
Daw i gof rhai o'r artistiaid a'u caneun. David Lloyd yn canu 'Arafa Don', 'Elen Fwyn' a'r dôn Lausanne yn eu plith. Mary Jones, Llanfairfechan yn perfformio 'Llam y Cariadon', 'Ynys y Plant' a 'Mai'. Cofiaf hefyd David Lloyd yn canu deuawdau gyda Bruce Dargavael, fel 'Y ddau Wladgarwr' a 'Pysgotwyr Perl' - Bendigedig! Ond erys yn fy nghof byth Mary Jones a David Lloyd yn canu 'Hywel a Blodwen'. Cymeradwyaeth fyddarol a dau encôr yn plesio'r gynulleidfa eiddgar.
Wedi'r cyngerdd cael y cyfle i gyfarfod yr artistiaid a chael eu llofnod - maent gennyf yn ddiogel o hyd. Y sgwrs yn ystod y dyddiau wedi'r cyngerdd oedd barn y cyhoedd am y cyngerdd, a'r canlyniad oedd i bawb gytuno mai 'dyna be oedd Cyngerdd Mawreddog'.

Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â swyddfa Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru, Bangor (01248 353604). Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:-
Gareth Llwyd – 601415
Neville Hughes – 600853

Archebu trwy'r post

Gwledydd Prydain – £22
Ewrop – £30
Gweddill y Byd – £40
Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com
01248 600184

BYSUS
D. J. Owens
RHIWLAS

01248 361044 a 07771 634195



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATI.

Bysus Gwyrdd Rhiwlas

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

www.llaisogwan.com
Trydar: @Llais_Ogwan

HYWEL WILLIAMS

AELOD SENEDDOL DROS ARFON



CYSYLLTWCH:

 01286 672076

 70 Stryd Fawr, Bangor

 hywel.williams.mp@parliament.uk



YMA I BOBOL DYFFRYN OGWEN AC ARFON

www.llaisogwan.com

SIÂN GWENLLIAN

AELOD O'R SENEDD DROS ARFON

CYSYLLTWCH:

 sian.gwenllian@senedd.cymru

 01286 672 076

 70 Stryd Fawr, Bangor



**Senedd Cymru
Welsh Parliament**

Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Gomisiwn y Senedd o gronfeydd cyhoeddus

Cofio'r Parch. Cledwyn Parry

(Gweinidog Siloam, Bethesda gynt)

Bu farw'r Parchedig Cledwyn Parry, Dinbych, yn 97 oed, yn Ysbyty Glan Clwyd ar ôl cyfnod byr o gystudd. Lai na dwy flynedd yn ôl bu'n dathlu 70 mlynedd yn y weinidogaeth.

Yn frodor o Gaernarfon, bu ganddo yn ystod ei oes naw gofalaeth, a gofal am ugeiniau o gapeli, gan wasanaethu am ddeugain mlynedd yn Nyffryn Clwyd.

Roedd yn un o naw o blant a fu'n ffyddlon yng nghapel Ebeneser, Caernarfon. Dechreuodd bregethu yng nghapel bach Tŷ'n Lôn ger Caernarfon, yn ddwy ar bymtheg oed. Un o'i frodyr oedd Geraint Parry, y nofelydd poblogaidd.

Bu yng ngwasanaeth post y Llu Awyr yn y dwyrain pell adeg yr Ail Ryfel Byd, a phregethu yn Colombo, Sri Lanka cyn mynd ymlaen i Hong Kong. Dychwelodd i fynychu Coleg Handsworth y Methodistiaid yn Birmingham a rhoi oes o wasanaeth i eglwysi enwad y Wesleaid ledled Cymru.

Cychwynnodd yng Nghricieth a'r Rhos. Symudodd i Gonwy ac i'r de i Lanbedr Pont Steffan, cyn mynd yn ôl i'r gogledd, a threulio cyfnodau ym Mlaenau Ffestiniog, Bethesda, Dinbych, Rhuthun a'r Rhyl. Yn ystod y cyfnod hwn bu'n fawr ei ofal o Eunice, ei wraig, y cyfarfu â hi mewn cynhadledd



Fethodistaidd, cyn ymddeol i Ddinbych. Cyfunodd hyn â bod yn gaplan mewn sawl ysbyty.

Byddai ganddo storïau cynnes a ffraeth am ei brofiadau, ac wrth wynebu enciliad capeli, gwyddai yn well na neb bod angen addasu i'r oes, rhoi'r gorau i ofalu am adeiladau, a newid trefn addoli. Roedd yn gas ganddo gulni crefyddol. Yn ŵr eangfrydig a llengar, roedd yn eithriadol o hyddysg yn ei faes, ac eto'n meddu ar hiwmor cellweirus.

Bydd hiraeth ar ei ôl yng nghapel Pen-dre, Dinbych ac ymysg ei blant, Catrin, Siân a Gwynedd, a'u teuluoedd, ei wyrion ac wyresau, Lliwen, Mared, Caeron, Steffan a Gwydion, a'i orŵyr Twm Llew.

Heini Gruffudd,
2 Lôn Rhianfa, Abertawe SA1 6DJ
heini@gruffudd.org

Clwb Hanes Rachub

HANES HEN DRIGOLION YR ARDAL

Daeth cynulleidfa dda ynghyd yn Ysgol Dyffryn Ogwen ar gyfer cyfarfod cyntaf Clwb Hanes ers y clo mawr. Dr Jane Kenney oedd yn darlithio ar hanes y cloddio archeolegol a ddigwyddodd yng Nghae Rhosydd yn ystod y deg mis diwethaf. Dywedodd Dr. John Ll. Williams yn ei gyflwyniad fod Dr. Kenney yn un o'r archeolegwyr mwyaf profiadol ym Mhrydain, a bod ganddi brofiad o weithio yn Ewrop a thu hwnt.

Esboniodd Dr. Kenney, fesul cam, sut oedd y tîm yn gweithio, gan ddangos sleidiau pwrpasol o bob agwedd o'r gwaith. Roedd y cyfan yn broses tu hwnt o fanwl; rhaid oedd recordio pob manylyn

drwy ffotograffau, cynlluniau, nodiadau, samplau pridd a cherrig, a chan ddefnyddio'r offer technolegol diweddaraf. Roedd yn amlwg fod arbenigwyr penigamp wrth eu gwaith yma!

Wrth ymchwilio fesul haen yn y cae, daeth nifer o olion diddorol i'r golwg, a'r rheiny o wahanol gyfnodau! Roedd olion ffermdy 'Cefn Bedw' [tua 18fed ganrif] yno, yn ogystal â therasau yn y pridd o dan y ffermdy a oedd yn perthyn i gyfnod y Rhufeiniaid. Gwelwyd tystiolaeth fod cymdeithas yn byw yma yn ystod yr Oes Haearn [tua 150 cyn Crist] a gwelwyd nifer o luniau o olion cytiau crynion cerrig a phren. Darganfuwyd arteffactau o wahanol gyfnodau hefyd, fel



crochenwaith, ysgrifbin [wedi ei gwneud o bres], cerrig ar gyfer nyddu a mwclen wydr Rhufeinig. Gwelwyd tystiolaeth gynnar o ddefnyddio llechi hefyd, ac roedd hafn hir betryal yn y pridd yn awgrymu fod rhai o'r trigolion yn cyd-goginio. Daethpwyd ar

draws olion o nifer o ffwrnesi bach ar hyd y safle gyda thystiolaeth o olion llosgi haearn o'i mewn. Roedd hyn yn awgrymu, yn ôl Dr Kenney, fod haearn yn cael ei doddi a'i drin ar y safle. Pwysleisiodd Dr. Kenney nad yw'r gwaith ar ben o bell ffordd! Caiff arteffactau pridd, cerrig, darnau o haearn eu hastudio mewn labordai am gyfnod go faith, er mwyn darganfod mwy am 'hen' drigolion Cae Rhosydd!

Diolch yn fawr am bob cymorth i drefnu'r noson – Mr Dylan Davies, Mr Andrew Speddy, Mrs Nerys Williams, Dr. J LL. Williams, Mr. Adrian Williams am y diolchiadau ac wrth gwrs i Dr. Jane Kenney ei hun.

Marian Jones

Carneddi

Profedigaeth

Ar 8 Chwefror bu farw Janice Thomas, Maes yr Athro, Carneddi yn Ysbyty Gwynedd yng nghwmni cariadus ei theulu. Anfonwn ein cydymdeimlad at ei gwr Keith, ei phlant Paul, Cheryl a David a'u partneriaid, ei hwyrion a'i hwyresau, Aron, Hari, Mili Jên, Mali , Matti a Loti, ei mam Mrs Eileen Roberts o Ffordd Carneddi, ei brawd a'i chwaer Kevin a Karen. Cynhaliwyd ei hangladd yn Eglwys Glanogwen ar 18 Chwefror. Talodd ei merch Cheryl deyrnged deimladwy a haeddiannol iawn iddi o flaen cynulleidfia niferus yn yr eglwys i gofio ac i dalu teyrnged i Janice.

Janice Thomas

Janice Tŷ Isaf dyna fel byddai pawb yn cyfeirio at Janice gan iddi hi a Keith gadw'r dafarn isaf ar Stryd Fawr Bethesda am gryn flynyddoedd. Cyn hynny roeddent wedi bod cadw'r King's Head, hefyd ar y Stryd Fawr. Roedd Janice yn adnabod pawb ym Methesda a'r cylch ac yn bennaf oll yn ffrind i bawb. Doedd ganddi byth air drwg i'w ddweud am neb, er iddi orfod dweud y drefn ar adegau prin yn rhinwedd ei swydd, a doedd gan neb air drwg i ddweud amdani hithau chwaith. Roedd yn un o deulu mawr ac roedd ei gofal drostynt yn fawr iawn, yn

yncl ac antis, yn gefndryd a chyfnitherod a'r plant i gyd. Roedd ganddi amser i bawb. Yn ôl pob son doedd neb tebyg iddi am wneud brechdanau tiwna pan fyddai'n gorfod gwneud parti neu fwydo timau dartiau a phŵl. Bydd colled fawr i'r teulu oll ond bydd ganddynt lawer o atgofion hapus amdani.

Janice

Ein Janice hoffus oedd hi, – a heulwen I'n teulu ei chwmni,
Ac er archoll ei cholli
Daw nerth ei chariad i ni.

Ieuan Wyn

Diolch

Dymuna teulu'r ddiweddar Janice Thomas, 9 Maes yr Athro, Carneddi, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth.

Pen-blwydd arbennig

Llongyfarchiadau i Brian Parry, Stryd Brynteg ar ddathlu ei ben-blwydd yn 80 oed ar 18 Chwefror. Cafwyd noson fendigedig yn y Bull gyda'i bartner, Diana, ei deulu a'i ffrindiau. Paratowyd gwledd ar gyfer yr achlysur gan ei chwaer, Pat.



Marchnad Ogwen

Hoffem fel pwyllgor y Farchnad ddiolch o galon i Bwyllgor Clwb Criced a Bowlio Bethesda am groesawu y farchnad yno dros gyfnod atgyweirio Neuadd Ogwen.

Er gwaethaf y tywydd stormus cafwyd marchnad lwyddiannus iawn ym mis Chwefror.


Yn dilyn y stormydd diweddar fe waned difrod l ran o do y Clwb Criced. Fel canlyniad bu rhaid gohirio Marchnad mis Mawrth. Roedd ein cwsmeriad a'n stondinwyr yn canmol yr adnoddau, y cyhnesrwydd o fewn y clwb, heb anghofio wrth gwrs y parcio ceir hwylus. Edrychwn ymlaen at fod yno ym mis Mawrth ac Ebrill, (cadwch olwg am y baneri hysbysebu yng ngwaelod Allt Bryn Bela a chyferbyn a Siop Tesco ar y Stryd Fawr). Yn anffodus rydym yn ffarwelio gyda Llinos fu'n cadw standin *Printiau Hardd* yn y farchnad, nid yw'n parhau oherwydd pwysau gwaith. Pob dymuniad da i ti Llinos – edrychwn ymlaen i'th groesawu yn ôl yn fuan.

Ysgol Bodfeurig



Gourmet Byd Eang

Mae dosbarth Ogwen wedi bod yn brysur yn creu amrywiaeth o fwydydd fel rhan o'u gwaith ar fwydydd y byd. Mae Miss Roberts wedi bod yn brysur yn dysgu'r dosbarth am fara gan roi cyfle i greu bara o siapiau diddorol. Er gwaethaf y llanast cafodd pawb hwyl!
Yn ystod cyfnod blwyddyn Newydd Tseina bu Miss Davies a'r plant yn brysur yn crasu crempogau llysiau Tseiniaidd. Profiadau arbennig fydd yn siŵr o aros gyda'r plant wrth iddynt dyfu.



Blwyddyn Newydd Tseiniaidd

Cafodd pawb hwyl a sbri yn dathlu blwyddyn Newydd Tseiniaidd y mis yma. Roedd llawer o fwrlwm wrth ddysgu am hanes y calendr

Tseiniaidd, cyfle i ysgrifennu mewn ysgrifen Tseiniaidd, creu crefftiau, defnyddio taenlen a blasu cinio arbennig gan Anti Anwen ac Anti Dana.

Damwain awyren uwchlaw'r Gerlan

GAN ANDRE LOMOZIK

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, ar yr 22ain o Ragfyr, 1942, roedd awyren ryfel Wellington II W5494 ar ymarferion hyfforddiant o faes awyr gorsaf y Llu Awyr yn Moreton-in-March, Swydd Gaerloyw. Criw o bump oedd ynddi, ac roeddynt yn rhan o Uned Hyfforddiant Gweithredol 21.

Ychydig cyn 11.30 o'r gloch ar y bore tyngedfennol hwnnw, gwelwyd yr awyren gan weithwyr Chwael y Penrhyn, ynghyd â thrigolion yr ardal, yn hedfan rhwng Carnedd y Filiast a'r Fronllwyd i gyfeiriad Dyffryn Ogwen, a hynny mor isel fel y bu bron iddi daro copaon y ddau fynydd. Hedfanodd dros Fraichmelyn, a phan oedd ar fin taro rhesi tai uchaf y Gerlan llwyddodd y peilot i godi trwyn yr awyren fel ei bod yn osgoi'r tai a tharo'r ddaear yng Nghae Maes uwchlaw, un o gaeau fferm y Gerlan.

Yn dilyn yr ergyd o daro'r ddaear, cafodd aelodau'r criw eu lladd yn syth, a gwyrodd yr awyren i gyfeiriad y Rhiwen, y Freithwen

Uchaf a Thai'n Cae, gan dorri drwy dair wal gerrig, a darnau ohoni'n cael eu torri i ffwrdd a chael eu gwasgaru hyd y lle. Daeth o fewn 75 llath i daro'r tŷ agosaf i'r lôn yn Nhaf'n Cae. Aeth yr awyren ar dân, ac roedd pryder ei bod hi'n cludo bomiau ac y byddai ffrwydradau difrifol. Roedd y rhai oedd yn byw yn ymyl yn meddwl eu bod yn gweld bomiau ymysg y darnau drylliedig, ond cawsant eu sicrhau mai silindrau ocsijen oedden nhw. Daeth injan dân o Fangor yno, a meddyg lleol, ond doedd dim y gellid ei wneud.

Brawychwyd y trigolion gan y digwyddiad, a phenderfynwyd cynnal cyngerdd yn festri capel y Gerlan ar 11 Ionawr, 1943 i godi arian er mwyn i'r Llu Awyr osod coflech ym maes awyr Moreton-in-March i'r pump a gollwyd. Y Parch. Tom Nefyn Williams oedd gweinidog y Gerlan ar y pryd, ac ysgrifennodd gerdd i'w hadrodd yn y cyngerdd. I adrodd y gerdd dewiswyd Gwyn Hughes, mab John a Mary Hughes, Stryd Rallt (Hill Street bryd hynny). Dyma'r gerdd:

Y CERBYD TÂN

Mis Rhagfyr tawel, claeaf oedd,
A throell-fwg glas o'r tai i gyd;
Ni chredai neb fod gaeaf crin
Ers tro yng nghaeau'r byd.

Rhyw ddifyr aros a wnâi pawb
Ar 'dro y rhod' a'r Wyl;
Os na cheid engyl uwch ein bro,
'Roedd ar bob aelwyd hwyl.

Fe yrrid cardiau i rai pell
Ym mrwydrau erch y byd;
Disgwyliai'r plant am Santa Clôs
Cans plant yw plant o hyd.

Ond, ust! Dros ael y brynau draw
Daeth sŵn bygythiol, trwm:
Llong-awyr oedd, a'i chwymp yn siŵr
O chwalu tai ein cwm.

Yn is; yn nes; a miri pawb
Yn troi'n barllysol fraw;
Tros gapel a chartrefi 'raeth
A rhyngddi ond trwch llaw.


O'r dristaf long ni lamodd neb
O'i chriw i'w gadw'i hun,
I'n harbed ni, llywasant hi
I gyrion cors ddi-lun.

Yn gymysg â rhyw bentwr du
Bu tranc pum llencyn glân:
Aiff rhai heblaw Elias ddewr
I'r nef mewn Cerbyd Tân!

Nid oes gweddillion o'r awyren yn aros erbyn heddiw yn safle'r ddamwain, ond gellir gweld ôl difrod ar ddwy o'r waliau, sef wal terfyn Cae Maes a Rhiwen, a wal terfyn Rhiwen a Thai'n Cae.

Dyma'r hyn sydd yn y cofnod swyddogol am y pum aelod o'r criw: 1. Sargeant. R.N. Braithwaite, Wireless Operator/Air gunner. 2. Flying Officer R. Stables, Navigator. 3. Flying Officer R. L. Grayson, Pilot. 4. Flying Officer D. W. Hogg, Navigator/Air bomber. 5. Flying Officer E. F. Chatterson, Air gunner.

(Mae'r uchod yn seiliedig ar yr wybodaeth sydd yn llyfr *The Air War over Gwynedd* gan Dafydd Roberts, ac ar wybodaeth a gafwyd gan Richard Temple Morris, Tan y Garth, a Dafydd Morris, Garnedd Uchaf; a gwybodaeth a gofnodwyd gan y diweddar Tecwyn Hughes, Ffordd Gerlan.)



Gareth Williams
Trefnydd Angladdau

Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda

600763 neu 07708 008051

GWASANAETH DYDD A NOS

Owen's Tregarth

Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd

Arbenigo mewn
meysydd awyr
Cludiant Preifat
a Bws Mini

01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk

**MODURDY
FFRYDLAS**



Profion
M.O.T.

Perchennog
A. LI. Williams

Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦TEIARS A BATRIS♦
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN

☎ **600723**
Ffacs: 605068

Talybont

Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda (600853)

Barbara Jones, 1 Dol Helyg,
Talybont (353500)

Cydymdeimlo

Y mis yma, unwaith yn rhagor, cawn yr orchwyl drist o gydymdeimlo â ffrindiau yn y pentref sydd wedi colli annwyliaid.

Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â Louie a Judy, Tŷ Cerrig. Ar 9 Chwefror colodd Louie, ei hannwyl frawd, Ifor Owen Evans, Cae Tregarnedd, Lanfairpwll. Er iddo ymgartrefu yn Llanfairpwll ers dros hanner can mlynedd, un o hogia Hiracl oedd Ifor. Yr oedd

yn foneddigaidd, yn weithgar iawn yn y gymdeithas, ac yn barod ei gymwynas. Bydd yn gadael bwlch mawr ar ei ôl ymysg ei deulu a'i ffrindiau. Cydymdeimlwn hefyd â Dafydd, 18 Cae Gwigin, Wŷr Louie, ei wraig, Emma a Nel eu merch fach, sydd wedi colli hen-ewythr hoff.

Yn fuan wedi'r Nadolig, bu farw Robert Ellis yn ei gartref yng Nghaerdydd. Yr oedd yn frawd i Graham, 3 Cae Bach, yn frawd yng nghyfraith i Ann ac yn ewythr hoff i'r teulu i gyd. Yn ystod ei flynyddoedd ym Mangor, bu Bob yn gweithio i'r Swyddfa'r Post. Yr oedd yn boblogaidd ac yn uchel ei barch gan ei gyd-weithwyr a phawb a'i hadnabu. Roedd ganddo

saith o frodyr a chwiorydd, bellach, dim ond un ohonynt sydd ar ôl. Derbynia ein cydymdeimlad, Graham, yn dy golled fawr.

Daeth profedigaeth i ran Idris Thomas, 16 Dolhelig yn ddiweddar, pan fu farw Huw, ei frawd- yng -nghyfraith yng Nghaernarfon, gwta ddeg wythnos ar ôl marwolaeth Violet, ei chwaer-yng-nghyfraith, yn Lerpwl. Brawd a chwaer yr annwyl Rose oeddynt ac unwaith eto, gwelwn deulu o saith o blant yn mynd yn bedwar yn weddol sydyn. Anfonwn ein cofion a'n cydymdeimlad at y teulu i gyd.

Diolch

Mae Sheila Owen (Redfern, gynt),

Millbank, yn dymuno diolch o galon i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am yr holl alwadau ffôn, cardiau, blodau ac anrhegion a dderbyniodd yn dilyn ei damwain. Yr oedd y cyfan yn gysur iddi yn ystod ei harhosiad hir yn yr ysbyty.

Capel Bethlehem

Oedfaon (am 2 o'r gloch)

20 Mawrth: Parchg. Geraint

Roberts, Llandegfan.

27 Mawrth: Y Gweinidog.

3 Ebrill: Parchg. Megan Williams, Porthaethwy.

10 Ebrill: Y Gweinidog.

17 Ebrill (Sul y Pasg): Mr. D. Glyn Williams, Llandudno.

24 Ebrill: Y Gweinidog.

Croeso cynnes i bawb.

Eglwys Sant Tegai, Llandygái

Raffl Santes Dwynwen

Llongyfarchiadau i Peter Bellen o'r pentref, un o'n cefnogwyr selog a enillodd y wobwr gyntaf yn Raffl Santes Dwynwen. Rhoddwyd yr ail wobwr i Dr and Mrs Robin Davies Tregarth. Dathlodd Dr Robin ben-blwydd arbennig ar drothwy 2022 felly mae yna estyniad i'r dathlu! Codwyd swm anrhydeddus o £653 a hoffwn ddiolch i Nerys Jones, Liz Jones, Martin Brown, Edmond Douglas Pennant a Dorothy Hanks am werthu. Diolch hefyd i gynulleidfaoedd eglwysi eraill Bro Ogwen am gefnogi'r fenter. Mae sawl un ohonoch wedi rhoi rhodd ariannol sylweddol i gronfa'r raffl, diolch i chi yn ddiffuant. Yn olaf, hoffwn ddiolch i'r noddwyr, Rhian a Gareth Llewelyn Jones am argraffu'r tocynnau a chynnig y siampên a Nerys Jones am roi'r ddwy wobwr arall.

Penodiadau

Rydym yn ddiolchgar iawn i'r Archddiacon, Yr Hybarch Mary Stallard, am ei gofal a'i brwdfrydedd dros y flwyddyn a fu. Gwerthfawrogwyd ei gweinidogaeth, ei diddordeb brwd yn yr addoli a'i arweiniad cadarn yn y pwyllgorau. Fel eglwys hoffem ei llongyfarch ar ei phenodiad fel Esgob Cynorthwyol Bangor. Bydd yn parhau fel ein Harchddiacon. Yn yr un cyd-destun o ofal plwyfol, estynnwn groeso i'r Barchedig Ganon Tracy Jones o'r Gadeirlan fel ein Deon Gwlad newydd. Edrychwn ymlaen at gydweithio â hi.

Aelod Newydd

Llongyfarchiadau i Gwenan a Peter Llewelyn Atkinson o Fulham ar enedigaeth Elin fach ar Chwefror 20fed. Braff cael croesawu aelod o'r genhedlaeth nesaf i deulu St Tegai, er yn byw yn Llundain!

Llongyfarchiadau i Rhian a Gareth ar ddod yn Nain a Thaid am y tro cyntaf.

Gwaeledd

Gyrrwn ein dymuniadau am wellhad buan i Helen Gill, Llanfairfechan. Mae'n ddrwg gennym glywed ei bod yn parhau i gael problemau iechyd.

Cydymdeimlad

Claddwyd llwch cyn-drigolion y pentref, sef Eirian Griffiths a'i mam Eirlys ym mynwent Eglwys Llandegai ar Chwefror 19 gyda'r Hybarch Mary Stallard yn gweinyddu. Rydym yn cydymdeimlo unwaith eto gyda'r teulu oll.

Gwasanaethau Sant Tegai Llandygái

Cofiwch nad yw St Tegai ar agor o gwbl felly mae cyfle i'r gynulleidfa addoli yn yr eglwysi canlynol ac yn y Gadeirlan ym Mangor; Eglwys Crist Glanogwen, Eglwys Santes Fair Mynydd Llandegai, Eglwys St Cedol Pentir, Eglwys St Cross Talybont, Eglwys Santes Fair Tregarth. Dymuna cynulleidfa St Tegai ddiolch unwaith eto i'n cyfeillion am eu gwahoddiad parod i addoli ar y cyd.

Tra bod eglwysi Bro Ogwen yn disgwyl am apwyntiad Ficer newydd, rhaid cysylltu â'r Deon Gwlad newydd, bydd y Parchedig Ganon Tracy Jones, ynglŷn ag unrhyw fater s'yn ymwneud â'r eglwys. Cysylltwch a hi ar tracyjones@churchinwales.org.uk, neu 01248 361 876.

Cynhelir

Clwb Coffi Talybont

Bore Llun, 21 Mawrth

10.30-12.00

yn Festri Bethlehem

Croeso i bawb dros 60 oed
Dewch am baned, bisged a sgwrs
(Mynediad am ddim)

Llandygái

Iona Wyn Jones, Dyma Fo,
16 Pentref, Llandygái, Bangor
LL57 4HU (01248 354280)

Penblwydd

Rydym i gyd yn y pentref yn dymuno pen-blwydd hapus i Robin Jones, Rhif 14 ar gyrraedd ei ben-blwydd yn 98 mlwydd oed. Mae Robin yn teithio i'r dref yn ddyddiol ar y bws i siopa.

FESTRI CAPEL JERUSALEM

Cynhelir

Bore Coffi Apêl Wcrain

Sadwrn, 19 Mawrth 2022

10.00 – 12.00

(Stondinau arferol)

Mynediad: £1.00

Côr y Penrhyn

gyda Derfel Roberts



Y CÔR AR RADIO 4

Yn ein hadroddiad diwethaf adroddwyd fel y bu i ddau aelod o'r côr fynd draw i Gastell Penrhyn i roi eu hymateb hwy i'r paentiad enwog o Chwarel y Penrhyn a baentiwyd yn 1832 gan Henry Hawkins, ac sy'n crogi ar un o furiau'r castell.



Paentiad enwog Henry Hawkins sydd i'w weld yng Nghastell Penrhyn

Dyma lythyr a dderbyniwyd gan Sioned Griffiths o Gastell Penrhyn sy'n gweithio i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Ychydig cyn y Nadolig, cawsom y pleser o groesawu'r hanesydd Neil MacGregor a chynhyrchydd o BBC Radio 4 i Gastell Penrhyn am y bore. Daethant i recordio pennod o raglen newydd ar BBC Radio 4 fydd yn dathlu pwysigrwydd amgueddfeydd drwy ganolbwyntio ar un gwrthrych arbennig. Dewison ni'r paentiad o Chwarel Penrhyn gan Henry Hawkins oherwydd mae'n un o'r creiriau sydd yn cysylltu'r castell gyda'r hanes cymdeithasol a diwydiannol lleol. Mae'n rhoi cipolwg ar y chwarel tra roedd yn ei hanterth, ac mae ei fanylder yn dangos rhai o'r swyddi diddorol, ac wrth gwrs, beryglon y chwarel. Ar hyn o bryd, mae'n cael ei arddangos tu allan i'r Ystafell Frecwast ond bydd wedi symud i le mwy blaenllaw pan fydd y castell

yn ailagor ar Fawrth 5ed, 2022. Ar gyfer y bennod, eglurodd Eleanor Harding, curadur Castell Penrhyn, y berthynas rhwng y castell, y paentiad a'r chwarel. Yn ogystal, estynnwyd gwahoddiad i Dafydd Roberts, cyn-Geidwad yr Amgueddfa Lechi yn Llanberis, i rannu ei arbenigedd am y diwydiant llechi. Roeddem yn awyddus hefyd i gael persbectif aelodau o'r gymuned leol, ac rydym yn ddiolchgar iawn i aelodau o Gôr y Penrhyn, Dafydd Jones-Morris ac Emyr Roberts am ddod i rannu eu barn a'u profiadau. Bydd canu bendigedig y côr hefyd i'w glywed ar y bennod.

Mae'n siŵr o fod yn bennod wych, felly cadwch lygaid amdani ym mis Mawrth. Yn ôl Sioned, bydd 2022 yn canolbwyntio ar y darlun felly bydd mwy o wybodaeth am arddangosfa s'n seiliedig ar y berthynas gyda'r chwarel a'r gymuned i'w rannu erbyn y rhifyn nesaf. Darlledwyd y rhaglen ar Radio 4 ar Ddydd Mawrth yr wythfed o Fawrth dan yr enw 'Museums that make us'. Hon fydd yr ail yn y gyfres. Ni chafwyd gwybod union amser y darllediad felly gwyliwch amdani. Dathlu Gŵyl Ddewi



Manyl yn o baentiad Henry Hawkins o'r chwarel.



Eleanor Harding, Curadur Castell Penrhyn gyda Dr Neil MacGregor, cyn gyfarwyddwr yr Amgueddfa Brydeinig a Dr Dafydd Roberts, Cae'r Wern Tregarth, cyn geidwad yr Amgueddfa Lechi yn Llanberis

Ar 27 Chwefror bu aelodau'r côr yn difyrru aelodau o Glwb Golff Conwy yn ystod eu cinio Gŵyl Ddewi. Er na lwyddwyd i gynnal y cinio dros gyfnod y pandemig penderfynodd y clwb adfer yr arfer eleni a bu'r côr yn canu iddyn nhw yn ystod ac ar rôl y gwledda. Yr unawdwy'r yn ystod y cyflwyniad oedd Ray Roberts (Tenor 1) John Outram (Bas 1) a Hywel Thomas (Tenor 1).



C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu



Bethesda 01248 600045
Caernarfon 01286 676070
Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol
Stoc helaeth ac amrywiol
Staff cyfeillgar a phroffesiynol
Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768
Llanrwst 01492 640794
Caergybi 01407 728728

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a Llanrwst

Ysgol Dyffryn Ogwen

Sgwennu’n Hwyl

Pwy feddylia fod Sgwad Sgwennu yn gymaint o hwyl? Trefnodd yr Adran Gymraeg i ni gael Sgwad Sgwennu gyda’r bardd Osian Owen ar ddiwedd mis Ionawr. Ein themâu oedd Santes Dwynwen. Yn y sesiwn cawsom ni ysgrifennu am beth oedd yn ein gwneud ni’n hapus, yn gyffrous, yn nerfus a llawer mwy. Hefyd, cawsom ddysgu sut i odli a sut i greu

cerddi serch ein hunain. Roedd pawb yn eu dyblau yn chwerthin!
Cawsom hwyl yn creu cerddi gydag Osian ac roedd o’n gyfle i gyfathrebu gyda phobol o flynyddoedd eraill, a bu’r sesiwn yn help mawr i bobl adeiladu hyder i siarad o flaen cynulleidfa. Cawsom lawer o hwyl ac rydym yn edrych ymlaen at y sesiwn nesaf!
Seren Roberts a Nia Baines - Blwyddyn 8



Y Sgwad

Ymweliad Disgyblion Ysgol Penybryn

Cafwyd ymweliad i’r ysgol gan ddisgyblion blwyddyn 6 Ysgol Penybryn ddechrau mis Chwefror. Cafwyd diwrnod llawn hwyl ac yn ôl y disgyblion, roedd y gwersi yn hynod ddiddorol a’r cinio yn fendigedig!



Dydd Gŵyl Dewi

Cafwyd diwrnod Dydd Gŵyl Dewi prysur iawn i bawb yn Ysgol Dyffryn Ogwen ac roedd y cinio yn flasus iawn, diolch i staff y gegin.

Llongyfarchiadau!

Da iawn ti Cian Rhys ar dy waith caled fel Llysgennad i ‘Llechi Cymru’. Mae Cian wedi bod yn gweithio’n galed mewn gweithdai, ymweliad a digwyddiadau sydd wedi hyfforddi’r Llysgenhadon a’u harfogi i wella dealltwriaeth am dreftadaeth a diwylliant.
Mae Rhiannon Roberts wedi cael ei dewis i fod yn aelod o Gôr Cenedlaethol Ieuencid Cymru, Llongyfarchiadau mawr Rhiannon.



Pêl-droed

Diolch i adran addysg gorfforol Ysgol Tryfan am ddod i’r ysgol ar gyfer gemau pêl droed blwyddyn 11 yn ddiweddar. Roedd dau dîm o safon uchel yn chwarae, a bu’r disgyblion yn brwydro’n galed am farciau ymarferol TGAU.

Rygbi

Bu criw o enethod blynyddoedd 7 a 8 ym Mharc Eirias yn ddiweddar mewn sesiwn rygbi gyda Rygbi Gogledd Cymru. Bwriad y sesiwn oedd rhoi profiadau o chwarae rygbi i rai sydd heb gael llawer o gyfle yn ddiweddar.

Oes gennych chi ddiddordeb i hysbysebu yn Llais Ogwan?
Cysylltwch â Neville Hughes (Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com



Ogwen
Adferiad Corfforol
Physical Rehabilitation

Proffesiynol, diogel a chyfrinachol
LLEDDFU POEN Cefn, cyhyrau, esgyrn,
cymalau, a thensiwn cur pen

Eli Lichtenstein
07743373895  Ogwen.Physical.Rehab@gmail.com

Tregarth

Olwen Hills (Anti Olwen), 48 Bro Syr Ifor, Tregarth (600192)
Angharad Williams, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth (601544)
Gwenda Davies, Llanfairpwll (gwendaglyn@hotmail.com)

Penblwydd Arbennig
Pob dymuniad da i Olwen Hills, Bro Syr Ifor ar ddathlu penblwydd arbennig yn 80 ym mis Chwefror. Anti Olwen ydy hi i bawb wrth gwrs ac wedi bod yn hynny ers ei chyfnod gyda'r Mudiad Meithrin. Gobeithio eich bod wedi cael amser da yn dathlu Anti Olwen.

Profedigaeth
Ar Chwefror 2, yn ei gartref 35 Erw Faen (gynt o 7 Maes Ogwen) bu farw William Trevor Roberts – Trevor Bach, yn 84 oed, priod y diweddar Olive ac yn dad arbennig iawn i Hefina a Dewi a thad yng nghyfraith Steven. Roedd Trevor yn daid hoffus i Nicola, Lee, Steven, Sophie,

MERCHED Y WAWR CANGEN TREGARTH

Daeth criw da o aelodau y gangen at ei gilydd yn Shiloh Nos Lun, 7 Chwefror Y wraig wâdd oedd yr artist o Gaerhun, sef Anna Pritchard. Mae enw Anna yn adnabyddus drwy Gymru bellach fel artist tecsiliau ac mae ei gwaith yn eithriadol o boblogaidd ac yn werth ei weld. Ewch i weld peth o'i gwaith ar y Wê! Cynllunydd ydi Anna sy'n cynllunio defnyddiau/blancedi gyda phatrymau lliwgar a hyfryd ac mae'r gwaith wedi cael ei ysgogi gan fyd natur o'i chwmpas. Cafodd ei magu ar fferm Glasinfryn ac mae wedi gwneud defnydd o'r hyn a ddysgodd yn yr amgylchedd yn Nyffryn Ogwen. Roedd ei thaid a'i nain yn ffermio yn Coetmor a bu ei dylanwad arni hi yn fawr. Mae ei mham, Nesta, hefyd yn artist adnabyddus ac wedi tiwtora ym myd celf. Gwna Anna ddefnydd

yn ei gwaith o nodau clust defaid yr ardal, o flodau a chaeau o'i chwmpas ac mae'r teulu yn cadw defaid mynydd Cymreig a bydd eu cnu yn rhan o ddefnyddiau a chynlluniau gwaith Anna yn y dyfodol. Cafwyd cyfle i'w holi am ei gwaith a beth mae'n gobeithio ei gyflawni yn y dyfodol. Diolchwyd iddi am noson arbennig o dda gan y llywydd Myfanwy Harper a gan Gwenda Davies ar ran yr aelodau.

Bu'r aelodau'n dathlu Gŵyl Ddewi gyda phryd o fwyd yng ngwesty Fourcrosses, Porthaethwy, Nos Lun, Mawrth 7. Diolch i Myfanwy, Alison ac Iona am drefnu.

Wil Aron o Lanrug fydd y gwestai ar Ebrill 4 a'i destun fydd Martha Hughes Cannon. Dewch yn llu i Shiloh am 7.30 o'r gloch.

Barry a Natalie a hen daid i Ryan, Abi, Olivia, Harri, Poppy, Samira, Sienna a Lilly.
Bu Trevor yn gweithio y rhan fwyaf o'i oes yn Chwarel y Penrhyn ac roedd yn grefftwr arbennig iawn. Roedd ei angladd yng Nghapel Shiloh, Tregarth, ar Chwefror 14, yng ngofal y Parchedig Huw John Hughes a'r

organydd oedd Wyn Williams. Rhoddwyd ef i orffwys ym Mynwent Coetmor, Bethesda. Anfonwn ein cydymdeimlad at ei ferch Hefina ei fab Dewi a gweddill y teulu yn eu galar.
Dymuna'r teulu ddiolch i bawb am yr holl gardiau ac i bawb a alwodd ac am y galwadau ffôn a'r negeseuon. Diolch am y rhoddion ariannol er budd Ysgol Tregarth er cof am Trevor ac i Gareth Williams am y trefniadau i gyd.

Ffriddoedd, Bangor, priod y diweddar Gwerful, fu farw Chwefror 10 yn 89 oed.

Cofio Dilys Hughes, Bryn Poeth (gynt)
Daeth y newyddion trist i sylw Llais Ogwan yn ddiweddar, am farwolaeth Dilys Griffith (Hughes, gynt) ar 2 Mawrth yn 84 mlwydd oed.
Mae rhai o drigolion Tregarth yn cofio bod Dilys a Hywel, ei gŵr, o Lanrug, wedi ymfudo i Awstralia yn 1971, ac yno y buont yn byw ers hynny gan fagu chwech o blant yno. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Hywel a'r plant, yn ogystal â'i chwaer yng nghyfraith, Llywela, yn Lanrug.

STEPHEN JONES TREFNWR ANGLADDAU CYF

**PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS**

BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
Ebost: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com

Contractwyr Trydanol Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penrall, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk



Capel Shiloh, Tregarth

Ydi, mae Shiloh ar agor ar gyfer oedfa bob Sul am 5 o'r gloch. Dyma drefn y gwasanaethau am yr wythnosau nesa. Rhaid parhau i wisgo mwgwd ar gyfer y gwasanaeth.

Mawrth 20 – Philip Barnett, Swydd Efrog
Mawrth 27 – Sul y Mamau. Peter Cutts, Porthaethwy
Ebrill 3 – Richard Gillion
Ebrill 10 – Sul y Blodau. Eric Jones, Bangor
Ebrill 17 – Sul y Pasg. Geraint Roberts, Llandegfan
Ebrill 24 – Richard Gillion

Bu farw un o aelodau Shiloh sef Ronald William Hughes, Pennant, Seion, Llanddeiniolen ar Chwefror 21 yn 87 oed. Roedd Ronnie a'i wraig Gwenda yn aelodau yn Ebeneser, Caernarfon, a phan ddaeth yr achos i ben yno ymaelododd y ddau yma yn Shiloh. Cydymdeimlwn gyda Gwenda a'i feibion Bryn, Dilwyn ac Euron a'r holl deulu yn eu colled.



post@llaisogwan.com

Pwy Sy'n Cofio Ddoe?



© Dr J. Elwyn Hughes

Bu sawl ymateb i'r hyn a ysgrifennais yn rhifyn Chwefror a derbyniais wybodaeth ddiddorol o sawl cyfeiriad. Ymddengys fod tyrchi pei, er enghraifft, yn bryd digon cyffredin i chwarelwyr yr ardal a'u teuluoedd ac aeth ambell un ati i'm hatgoffa am bryd tebyg iddo dan yr enw 'brwas menynd'. Enwau eraill a glywais am yr un peth, fwy neu lai, oedd 'siot' neu 'bicws mali' (sef bara wedi'i fwydo mewn dŵr poeth, gyda thalp bach o fenyn a mymryn o halen wedi'i ychwanegu ato i roi 'chydig o flas arno'). Heb os nac oni bai, roedd y prydau hyn yn gynhaliath angenrheidiol y gallai teuluoedd tlawd ei fforddio dan yr amgylchiadau anodd yn Chwarel y Penrhyn yn ystod streic un mis ar ddeg 1896-97, a gwaeth fyth, y Streic Fawr a'i dilynodd rhwng 1900 a 1903.

O ran y cais a wneuthum i gwblhau'r rhigwm yn dechrau 'Wele cawsom yn y Dreflan ...', diolchaf i Beryl Orwig am y canlynol (ac eithrio un newid bychan).
Wele cawsom yn y Dreflan
Gacan bwdin ora 'rio'd,
Honno ddaru Joni Becar
Sôn amdani cyn ei bod
Cacan yw, ia wir Dduw,
[neu cacan yw, ddu ei lliw]
Blawd a chyrants a wya bach dryw.

Diolchaf i Beryl, hefyd, am f'atgoffa bod y rhigwm wedi'i seilio ar emyn Dafydd Jones (1711-1777). Er mwyn i chi allu cymharu drosoch eich hun i ba raddau yr oedd y parodi yn debyg i'r gwreiddiol, dyma i chi bennill cyntaf (o'r tri yn emyn Dafydd Jones):

Wele cawsom y Meseia,
cyfaill gwerthfawrocaf 'rioed,
darfu Moses a'r proffwydi
ddweud amdano cyn ei ddod:
Iesu yw, gwir Fab Duw,
Ffrind a Phrynwr dynol-ryw.

Emyn 441 yn *Caneuon Ffydd*. Cenir ar y dôn 'Wyddgrug' [369] gan J. Ambrose Lloyd.

Yn ddiddorol iawn, derbyniais e-bost ddechrau Chwefror oddi wrth Menai Williams, Erw Las, Bethesda, yn cynnwys amrywiad, neu barodi, arall ar yr uchod:
Wele cawsom bwdin 'Dolig,
Pwddin gwerthfawroca' 'rioed,
Ddarfu i Moses a'r proffwydi
Ddweud amdano cyn ei ddod;
Pwddin yw, ia wir Dduw,
Blawd a reisins a wya' dryw.

Cefais wybod hefyd am rai rhigymau eraill oedd yn boblogaidd yn yr ardal ers talwm ac yn dal ar gof rhai o ddarllenwyr *Llais Ogwan*.

Dyma'r un a gofia Brenda Wyn Jones:
'Dw i isio pi-pi',
medda' gwraig T.B.
'Gwna yn dy het',
medda gwraig Coparé.
'What is the matter?
medda' gwraig McCarter,
'Nothing at all',
medda gwraig Cloth Hall.

Mae'n siŵr y bydd rhai ohonoch yn cofio lle'r oedd y siopau a grybwyllir, yn ogystal ag ambell un o'r cymeriadau y cyfeirir atyn nhw.

Roedd Beryl Orwig yn cofio'r ddau bennill a ganlyn, y cyntaf am hogia'r *Home Guard* lleol:

Mae'r *Home Guard* yn fechgyn gwrol
Ar hyd y nos
Ac yn dal yn benderfynol
Ar hyd y nos
Os daw'r Jerry yma i'n bygwth,
Safant rhyngom ni a'r gelyn,
Wedi hynny, heddwch wedyn.
Ar hyd y nos.

Mae'r ail am sefydliad sy'n dal yn fyw yng nghof llawer o'r genhedlaeth hŷn yn Rachub:

Os ewch i Siop Miss Griffith,
Mor ifanc ag 'r es i,
Cewch *chips a fish* i swpar
O waith 'rhen fadam ddu
Huw Richard ydi'r forwyn
Yn plicio'r tatws mân,
A madam wrthi'n brysur
A Huw yn pwnio'r tân.

Crybwyllais y pennill hwn mewn sgwrs ar y ffôn efo Myf Jones (o'r Gaerwen y dyddiau hyn ond o Rachub cyn hynny). Ffoniodd Myf ei brawd, John (Davies), Tanysgafell, a chael cadarnhad ei fod yntau'n cofio'r un pennill (gydag un neu ddau o fân newidiadau).

Gorffennaf hyn o lith gyda'm diolch i Beryl Orwig am rannu'r canlynol efo darllenwyr *Llais Ogwan*:

'O plîs, 'ga' i wy',
'O plîs, 'ga' i wŷ'.
'Wel, 'ista yn fan'na,
A thria dy ora'.
'Mi lwga i os na cha' i wy'.

Methodistaid penna' cam,
D'eud wrtha i am guro mam;
Finna'n hogyn ifanc ffôl,
'N curo mam ar ei phen efo stôl.

Methodistiaid creulon, cas,
'N mynd i'r capal heb ddim gras
Gosod seti i'r bobol fawr
A gada'l tlodion ar y llawr.

Tybed a fu unrhyw rigymwr lleol yn bychanu a phardduo'r enwadau eraill – a'r Eglwyswyr – yn Nyffryn Ogwen? Tybed, yn wir, a oes rhagor o rigymau (a'r beirdd yn aml yn ddienw) ar goll yn niwl y gorffennol ond efallai'n cuddio ym mhen draw cof trigolion Dyffryn Ogwen. Rhowch wybod – mae perlau fel hyn i'w trysori fel eitemau pwysig yn ein llen gwerin.

CHRIS GRIFFITHS CYF

Trwsio ffenestri upvc, drysau,
cloeau, bachau, twll llythrau ac
unedau gwydr wedi chwythu



18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB

☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

TEMPLE MORRIS A'I Ffôn

Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.

07770 900531
01248 600282

jtemplemorris@btinternet.com

Ymateb gwych i dai fforddiadwy Llety'r Adar, Bethesda

Mynychodd dros 50 o bobl sesiynau gwybodaeth ym Methesda a rhai rhithiol i gadarnhau a chofrestru eu hangen am dai fforddiadwy newydd sbon sydd ar safle'r hen orsaf reilffordd yn y dref.

Mae cymdeithas dai Grŵp Cynefin yn cydweithio â Chyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru i ddatblygu 17 o gartrefi newydd yn y dref, mewn datblygiad gwerth £2.5m. Yr enw newydd ar y stad yw Llety'r Adar.

Mae'r tai rhent cymdeithasol, yn cynnwys 8 cartref dwy ystafell wely, 5 byngalo dwy ystafell wely, 3 cartref tair ystafell wely ac 1 cartref pedair ystafell wely. Byddant yn cael eu rhentu i ddiwallu'r angen lleol am dai o safon i ystod o bobol gyda chysylltiadau lleol.

Yn ôl Cyfarwyddwr Arloesedd a Thwf Grŵp Cynefin, Mel Evans: "Mae darparu cartrefi hygyrch a fforddiadwy, yn enwedig mewn cymunedau gwledig, yn greiddiol i'n gwaith ac rydym yn falch o'r cydweithio sydd yma ym Methesda.

"Mae gwir angen tai i deuluoedd a chyplau yng nghymuned Dyffryn Ogwen, felly rydym yn falch o allu cynorthwyo'r rhai sy'n gobeithio parhau i fyw yn yr ardal ond sydd wedi cael trafferth i ddod o hyd i dai addas a fforddiadwy yn y gorffennol."

Dwywedodd Cyngorwyr Gwynedd, Rheinallt Puw a Paul Rowlinson: "Rydyn ni gyd, yn lleol, yn edrych ymlaen at weld y cartrefi newydd ar safle'r hen orsaf yn cael eu cwblhau a'u gosod i denantiaid cyn gynted â phosib. Mae gwir angen cartrefi o'r fath yma yn Nyffryn Ogwen, a bydd yn helpu pobl i barhau i fyw a ffynnu yn yr ardal.

"Mae'n lleoliad delfrydol, yn agos at y cyfleusterau ar y stryd fawr, y feddygfa, y llwybr bws a Lôn Las Ogwen.

Model newydd i wella gofal cartref yng Ngwynedd

Mae Cyngor Gwynedd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cydweithio i sefydlu model newydd ar gyfer gofal cartref yn y sir a fydd yn helpu pobl i fyw eu bywydau mor llawn â

phosib yn eu cymuned. Bydd y model newydd yn gwella'r ffordd mae'r gwasanaeth gofal cartref yn cael ei drefnu a'i ddarparu yng Ngwynedd, drwy gadw'r trefniadau mor lleol â phosib.

Drwy sefydlu timau lleol bydd staff gofal cartref yn cydweithio'n agos gyda staff iechyd a gofal cymdeithasol a meddygon teulu, a dod i ddeall beth sy'n wirioneddol bwysig i bobl sydd angen cymorth i fyw gartref. Byddant yn canolbwyntio ar gryfderau'r unigolion a'u cefnogi i ailgydio yn eu cylchoedd cymdeithasol a'u helpu i fyw mor annibynnol â phosib gan hwyluso ymateb i anghenion pob cymuned.

Dwywedodd y Cyngorydd Dafydd Meurig, Aelod Cabinet Gofal Cyngor Gwynedd: "Mae gwaith da iawn eisoes wedi ei gynnal ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd mewn cymunedau penodol i brofi ffordd newydd o weithio yn y maes yma. Drwy ddod a'r darparwr gofal lleol, staff iechyd a gofal cymdeithasol a'r trydydd sector at ei gilydd, gallwn ddeall anghenion a theilwra'r cymorth yn fwy penodol, ac ymateb i'r galw cynyddol am ofal sydd wedi ei weld dros y blynyddoedd diweddar ynghyd â'r heriau recriwtio."

Fel rhan o'r model newydd bydd y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn comisiynu ar y cyd am y tro cyntaf, ac yn gwneud hynny ar sail is-ardaloedd yng Ngwynedd.

Dwywedodd Chris Lynes, Cyfarwyddwr Nyrso Ardal y Gorllewin ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: "Rydym yn falch o fod yn gweithio mewn partneriaeth gyda Chyngor Gwynedd i ddatblygu'r model newydd hwn ar gyfer gofal cartref yng Ngwynedd.

"Bydd gweithio integredig rhwng pawb sy'n ymwneud â gofalu am unigolion yn eu cartrefi eu hunain yn sicrhau'r canlyniadau gorau i'r

unigolion hynny. "Bydd y model newydd hwn hefyd yn rhoi sefydlogrwydd i'r gofawyr a'r farchnad y maent yn gweithio ynddi."

Gan barhau i gynnal marchnad gymysg bydd y Cyngor yn parhau i ddarparu o leiaf hanner y farchnad gofal cartref mewn cymunedau penodol, tra bydd cwmnïau arbenigol annibynnol mewn cymunedau eraill. Bydd hyn yn ei gwneud yn haws i drefnu a darparu gofal, yn lleihau amser teithio ac yn rhoi mwy o sicrwydd i staff a gwell gwasanaeth i'r unigolion.

Ychwanegodd y Cyngorydd Dafydd Meurig: "Fel rhan o'r contractau newydd byddwn yn cysoni amodau a thelerau staff ar draws y sir.

"Byddwn yn rhoi sicrwydd i ddarparwyr drwy gytundebau tymor penodol yn hytrach na thalu fesul pecyn gofal, a chreu'r amodau ar gyfer recriwtio, datblygu a chadw staff yn y maes."

Bwriad y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yw agor y broses dendro ddiwedd Mawrth eleni, ond ni fyddai unrhyw newidiadau'n digwydd tan fydd y broses yma wedi ei chwblhau yn ystod misoedd yr haf.

"Mae'n bwysig nodi y bydd pawb sydd angen gofal cartref yn parhau i'w dderbyn dan y model newydd," ychwanegodd y Cyngorydd Dafydd Meurig.

"Mi fyddwn ni'n cadw cysylltiad rheolaidd efo pawb sy'n derbyn y gwasanaeth dros y misoedd nesaf er mwyn eu cefnogi a thrafod unrhyw newidiadau posib gyda hwy. Bydd pob gwybodaeth yn cael ei rannu'n brydlon efo nhw a'u teuluoedd."

Mae mwy o wybodaeth ar gael ar wefan y Cyngor: www.gwynedd.llyw.cymru/ gofalcartref neu cysylltwch efo'r Tîm Prosiect Gofal Cartref ar 01286 679577, e-bost: GofalCartref@gwynedd.llyw.cymru

Rhai o dai llety'r adar



Sefydlwyd1969

m.hughes
a'i fab

CONTRACTWYR TOI

Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda

600633

(symudol) 07702 583765

Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am
waith diguro.

Nyth y Gân



DIWEDD Y GAEAF

Ymbesgi ar ei floneg
Fu'r draenog am yn hir
Am nad oedd tamaid iddo
Ar wyneb noeth y tir.

Mor dawel oedd ym mhobman,
Edrychai pawb mor oer,
Ond golau hynod lachar
A ddôl o wyneb lloer.

Ymestyn fesul tipyn
Gan braffio yr un pryd
Wnaeth dyddiau byr y gaeaf
A gwneud y fro'n fwy clyd.

Daeth tymor y blaguro
I frigau'r coed fu'n llwm,
A thoc fe welsom ninnau
Y gwyrddni hyd y cwm.

Bu'r deffro fel ail-eni
I'w deimlo drwy bob man
O weld y lle'n bywiogi
I'r cryfion ac i'r gwan.

MIAREN

Mae'n goncwest wrth ymestyn trwy
dyfiant

Ar dafod y gwrychyn
A'i adael i fynd wedyn
I le â maeth fel y myn.

Y FERFA

Un fer fu oes y ferfa o gario
Rhyw gerrig a thacla';
Hi a ddaeth o weithio'n dda
Â'i hen dalcen yn dolcia'.

CERRIG BEDDAU LLECHFAEN

Tair mynwent oer eu meini, chwiorydd
O'r chwarel yw'r rheini;
O'u geni o'r clogwyni,
Atgofion mawr nawr i ni.

Dafydd Morris

SIOP OGWEN

yn cynnig gwasanaeth


CLIC A CHASGLU

Llawer o Nwyddau
Newydd
gan Grefftwyr Newydd
wedi cyrraedd y siop

Hefyd
Llu o gardiau cyfarch
ar gyfer pob achlysur.
Cysylltwch â'r siop ar
yffôn **07394 905881**

neu E-bost siop@ogwen.org
i drafod beth sydd ar gael ac i
wneud trefniadau casglu a thalu

**CEFNOGWCH WASANAETH
LLEOL**



**Oes gennych
chi ddiddordeb
i hysbysebu yn
Llais Ogwan?**

**Cysylltwch â
Neville Hughes
(Ffôn 600853)**

nev_hughes@btinternet.com

MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwysu Teiars
Batris
Tracio

01248 600619



moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY



JR SGAFFALDIAU Cyf. SCAFFOLDING Ltd. JR

YR IARD, Ffordd Stesion, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:

01248 601754

07770 568743 (symudol)



Glasingfryn a Chaerhun

Mair Griffiths, (352966)
mairpenybryn@gmail.com

Cylch Glasingfryn

Braf oedd cael cyfarfod yn y Ganolfan unwaith eto ers dwy flynedd ar 9 Chwefror. Croesawyd bawb i'r cyfarfod gan Ann Illsley. Penderfynwyd cynnal cyfarfodydd o hyn allan am 2yp. Gwnaed trefniadau ar gyfer cyfarfod mis Mawrth, sydd fel arfer yn noson Cawl a Chân, felly ni fydd cân eleni ond Cinio Gwyl Dewi ar 9 Mawrth am 12.00yp. Cyn belled a mae'n bosibl bwriedir gwadd yr un siaradwyr oedd ar raglen 2020! Mae Carol Williams, gynt o raglenni Garddio ar S4C yn dod atom ar 13 Ebrill am 2.00yp i sgwrsio a rhoi arddangosfa "Garddio yn y Gwanwyn" mae croeso cynnes i bawb ymuno â ni. Wedi'r cyfarfod bu llawer o sgwrsio a dal i fyny dros baned a chacen.

Dymuniadau gorau

Dymunwn yn dda i Idwal Jones, Y Bwthyn, Waen Wen sydd heb fod yn dda yn ddiweddar.

Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar

Swyddfeydd eraill:

Llangefni Porthaethwy Benllech
(01248) 723106 (01248) 719517 (01248) 852782

Caernarfon Pwllheli
(01248) 673616 (01758) 703000

www.llaisogwan.com
Trydar: @Llais_Ogwan

Arfbais Douglas Arms Cwrw Casgen - Gardd Gwrw

ORIAU AGOR

Sul, Llun a Mawrth - wedi cau
Mercher, Iau a Gwener 18.00 - 23.00
Sadwrn 15.30 - 23.00

01248 602537



Gair neu ddau – John Pritchard

Mardi Gras Gŵyl Ddewi

Dyma'r tro cyntaf erioed i mi sgwennu'r pedwar gair gyda'i gilydd: 'Mardi Gras Gŵyl Ddewi'. Dim ond unwaith yn y pedwar amser y disgyn y *Mardi Gras* (sef 'Dydd Mawrth Ynyd' neu 'Ddydd Mawrth Crempog') ar ddydd cyntaf mis Mawrth. Y tro diwethaf iddo ddigwydd oedd 1960, a chyn hynny 1949. A dim ond dwywaith y digwydd eto cyn gwawrio'r ganrif nesaf, yn 2033 a 2044.

Cofio Dewi a'i weinidogaeth yn ein gwlad mor bell yn ôl â'r Chweched Ganrif a wnawn ar Ŵyl Ddewi. Daw Dydd Mawrth Crempog â ni at ddechrau tymor y Grawys, y cyfnod o ddeugain niwrnod sy'n dechrau drannoeth yr Ynyd ac yn arwain at y Pasg. Er mor anghyffredin oedd i'r ddau ddiwrnod gyd-daro eleni, roedd cyfuno'r ddau beth yn gwbl briodol gan fod y naill a'r llall yn ein cyfeirio at Iesu Grist a'i groes. Cyhoeddi Crist a'i farwolaeth a'i atgyfodiad a wnâi Dewi, a chyfnod o ymbaratoi ar gyfer dathlu'r Pasg a'r groes a'r bedd gwag yw'r Grawys.

Ond os oedd *Mardi Gras* ar Ŵyl Ddewi'n anghyffredin, mwy annisgwyl fyth i Gymry'r unfed ganrif ar hugain oedd gweld rhyfel yn Ewrop ar ddydd eu nawddsant. Roedd cysgod y rhyfel yn Wcráin yn sicr dros y cyfan eleni. Mor boenus, yng nghanol lliw a llonder a llawnder ein dathliadau a'n gwledda a'n crempogau, oedd gweld miloedd o bobl Wcráin yn ffoi o'u cartrefi rhag y rhyfel creulon a ddaeth i'w gwlad. Mae hwnnw'n mynd o ddrwg i waeth, a channoedd os nad

miloedd eisoes wedi eu lladd. Does wybod beth fydd wedi digwydd erbyn i chi ddarllen y geiriau hyn. Ond heddiw beth bynnag, dal i ddeisyfu a gweddio yr ydym y daw'r rhyfel i ben yn fuan. Mor ddychrynlllyd o drist yw gweld pobl, a oedd ychydig ddyddiau'n ôl yng nghanol eu gwaith a'u hamdden, yn ffoaduriaid alltud sy'n llwyr ddibynol ar groeso'r gwledydd cyfagos ac ar haelioni dieithriaid o bell ac agos sy'n anfon nwyddau i ddiwallu eu hanghenion mwyaf sylfaenol.

Rydym yn hen gyfarwydd ag anogaeth Dewi tua diwedd ei araith olaf: 'A gwnewch y pethau bychain a glywsoch ac a welsoch gennyf fi'. Pwy allasai ddychmygu y medrai gwneud 'y pethau bychain' yn 2022 gynnwys anfon plancedi a thyweli a sebon a brwsh dannedd i bobl sy'n ffoi o un o wledydd gogledd Ewrop? Cyn dechrau'r Grawys, rhydd y *Mardi Gras* ('Dydd Mawrth Tew' o'i gyfieithu'n llythrennol) yn draddodiadol gyfle i wagio'r cypyrddau o fwydydd fel wyau a menyn a siwgr cyn cyfnod y Grawys o ympryd ac ymwadiad. Yn hollol annisgwyl eleni, daeth y *Mardi Gras* â'r alwad i ni a'n tebyg, os nad i wagio'r cwpwrdd i roi'r hyn sydd bosibl i helpu pobl Wcráin.

I Gristnogion o hyd, y cymhelliad i wneud hynny yw geiriau ein Harglwydd a'n Gwaredwr: 'Yn gymaint ag ichwi ei wneud i un o'r lleiaf o'r rhain .. i mi y gwnaethoch' (Mathew 25:40).

PLAID CYMRU DYFFRYN OGWEN

Ar 23 Chwefror, cynhaliwyd cyfarfod blynyddol Cangen Dyffryn Ogwen Plaid Cymru. Diolchwyd i Bleddyn Williams am ei wasanaeth fel Cadeirydd dros y ddwy flynedd diwethaf. Cafodd ei ethol ychydig cyn y cyfnod clo ac felly bu wrth y llyw drwy gyfnod anodd, ac rydym yn falch iawn o'i gyfraniad. Yn ei adroddiad, diolchodd Bleddyn i Mary Jones, oedd yn sefyll i lawr fel ysgrifennydd, am ei gwaith caled hi dros y blynyddoedd. Mynegodd Bleddyn hefyd falchder am lwyddiant Siân Gwenllïan yn yr etholiad llynedd gan ddiolch i'r aelodau o'r gangen oedd wedi ymgyrchu i'w haillethol. Rhoddodd hyn gyfle i Siân, gyda grŵp y Blaid yn Senedd Cymru, negodi'r cytundeb cydweithio gyda'r llywodraeth, gan wireddu llawer o flaenoriaethau Plaid Cymru. Un agwedd o'r cytundeb oedd sicrhau y caiff pob plentyn oed cynradd bryd bwyd ysgol am ddim. Mae'r cytundeb hefyd yn cynnwys mesurau i daclo'r argyfwng ail dai, a'r argyfwng hinsawdd.

Etholwyd Catrin Wager fel y Cadeirydd nesaf gyda Einir Williams yn Is-gadeirydd, Gwynfor Rowlinson yn Ysgrifennydd, ac ail etholwyd Neville Hughes fel Trysorydd ac Ysgrifennydd Aelodaeth.


Mae'r gangen rŵan wrthi'n brysur yn rhannu taflenni i gyflwyno ymgeiswyr y Blaid at etholiadau'r cyngor ym mis Mai. Mae gennym griw cryf o ymgeiswyr, ac rydym yn falch iawn i'w cefnogi yn yr etholiad. Byddant yn gwneud tîm ardderchog.

Yn olaf, rydym ni ym Mhlaid Cymru yn dorcalonnus o glywed am y newyddion am y rhyfel yn Wcráin. Siaradodd ein Haelod Seneddol, Hywel Williams, mewn rali yng Nghaernarfon i fynegi ei gefnogaeth i bobl Wcráin, ac yn San Steffan mae wedi bod yn holi cwestiynau i'r llywodraeth ar y mater. Mae Hywel wedi galw ar y llywodraeth i roi mwy o gymorth i'r bobl ddiniwed sydd wedi gorfod dianc o'u cartrefi. Gobeithiwn weld datrysiad cyfiawn cyn gynted ag sy'n bosib.

CROESAIR


AR DRAWS

- 1 Diwrnod o'r wythnos, o'i gywasgu, fydd yn rhoi llawer mwy ohonynt (3,3)
- 5 Un wydr gan y chwaer fach ddel, ac un i fyw ynddi gan y wraig fach a'i phlant (*chwedlau*) (5)
- 9 Sylw i rywun enwog, - mae'n siwr o fod yn chwilio amdano (9)
- 10 Mae o'n mynd i wlad y pyramidiau hebot ti (3)
- 11 'Cymru ---'. Gweledigaeth a gobaith cenedlaetholwyr (3)
- 12 Fel y damhegion neu chwedlau Esop (9)
- 14 Graean (3)
- 16 Anadl einioes (5)
- 18 Diwedd munud a chychwyn wythnos sydd yn siwr o ddod (3)
- 19 Caiff 9 Ar Draws am fod yn berson fel hyn (9)
- 21 Dechrau cael gwyneb wedi gwylltio, a geir yn aml wrth guchio (3)
- 22 Bydd ddistaw i mi gael dechrau talu'r dreth (3)
- 23 Y pres budr ydi gweithgarwch cymysg (9)
- 25 Dau ----- a reid ar feic (5)
- 26 Un o gryfderau diarhebol Job (6)



I LAWR

- 2 Wedi hen flino cwffio (5)
- 3 ----- Alffeus, un o'r deuddeg (*Luc* 6) (4,3)
- 4 Wedi llosgi'n llwyr (3)
- 5 Iorwg y dringwr (5)
- 6 Llethr ar i lawr (7)
- 7 Anialwch oer gogledd Asia (8,4)
- 8 Mae'n gorwedd ar y traeth, a daw fy nghariad ati weithiau am sgwrs (*cân werin*) (6, 6)
- 13 Pum llinell gerddorol ; gwnewch nodyn ohonynt (5)
- 15 Mae'r un bach llywaeth o'r praidd wedi dianc i'r de (3,4)
- 17 "----- - Dail" am henwr hydrefol Crwys (6,1)
- 20 Siarad fel 'melin -----' yn ddi-ddiwedd (5)
- 21 Troed y mynydd (5)
- 24 Ar ôl hynny (3)



Enw:

Cyfeiriad:

ATEBION CROESAIR CHWEFROR 2022

AR DRAWS 7 Llwyfan, 8 Ymgyrch, 9 Gradd, 11 Sef, 12 Oedi, 15 Misol, 17 Edmygwr, 19 Ffyrnigo, 21 Sydyn, 24 Loli, 27 Epa, 28 Soffa, 30 Bragdy, 31 Gwibio

I LAWR 1 Cŵyr, 2 Efydd, 3 Onest, 4 Wythfed, 5 Sgïo, 6 Pryd, 9 Gem, 10 Amserol, 13 Ergydio, 14 Iôr, 16 Lei, 17 Efo, 18 Mes, 19 Ffŵl, 20 Gresyn, 22 Nia, 23 Mangl, 25 Oeri, 26 Iago, 28 Stid, 29 Ffair

Dyma'r ychydig wallau y mis hwn. Cafwyd 'gwifro' yn lle 'gwibio' (31 Ar Draws), 'fferm' yn lle 'ffair' (29 I Lawr) ac 'ysgaru' yn lle'r ateb cywir 'ymgyrch' (8 Ar Draws).

Gan y canlynol y cafwyd atebion hollol gywir, llongyfarchiadau: Huw D. Jones a Gwenno, Gerlan, Barbara Jones, Talybont, Rosemary Williams, Gareth Oliver, Elizabeth Buckley, Tregarth; Gwenda Davies, Llanfairpwll; M. A. Jones, Llanllechid; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Dilys Parry, Jean Vaughan Jones, Rhiwlas; Gill King, Mynydd Llandygai; Dilys Wyn Griffith, Abergele; Gwyneth Jones, Rita Bullock, Ann Temple Morris, Gaynor Elis-Williams, Bethesda.

Ond yr un ddaeth i'r brig y tro hwn am y wobroedd cynnig Gareth Oliver, Ty'n Clawdd, Tregarth.

Atebion erbyn 1af Ebrill, 2022 *fan bellaf* i 'Croesair Mawrth', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD

Bethesda

Mary Jones, maryeds@hotmail.co.uk
(07443 047642)
Joe Hughes, Awel y Nant,
Ffordd Ffrydlas, Bethesda
(601902)

Graddio

Llongyfarchiadau i Nerys Haf,
Dyffryn Glas ar lwyddo i ennill
gradd M.Sc ym Mhrifysgol Bangor.
Dymuniadau gorau iddi i'r
dyfodol.

Diolch

Dymuna Ann Thomas, 12 Maes
y Garnedd ddiolch o galon i'r
teulu, cymdogion a chyfeillion

am y cardiau a'r anrhegion a
dderbyniodd ar achlysur dathlu ei
phenblwydd yn 80 oed.

Dymuniadau Penblwydd

Ar yr 21ain o Chwefror dathlodd
Eirwen Owen, Erw Las benblwydd
arbennig iawn yn80 oed. Pob
dymuniad da ichi Eirwen a
gobeithio I chi gael diwrnod
arbennig yn dathlu gyda theulu a
ffrindiau.

Ysbyty

Cofion cynnes at y rhai a fu yn yr
ysbyty yn ddiweddar. Mae'n dda
deal eu bod ar wella. Dyma'r rhai
y clywodd y Llais amdanynt:- R.
T. Morris, Bryn Tirion; Caren
Roberts, Llain a Rita Lewis, Pant
Glas.

Cydymdeimlo

Anfonwn ein cydymdeimlad
at sawl teulu a fu mewn
profedigaeth yn ddiweddar, sef:-

Teulu'r ddiweddar Nancy
Jones, Y Felinheli, gynt o Ffordd
Carneddi, a fu farw ar 27 Ionawr
yn 92 mlwydd oed. Mam a mam
yng nghyfraith Catrin Jane a
Jonathan, a nain Chloe ac Elin.
Cydymdeimlwn hefyd gyda
Gerallt a'r teulu, Gaerwen, a Gwyn
a'r teulu, Pentraeth.

Teulu'r ddiweddar Mary Avril
Williams, Ffordd Hwfa, Bangor, a
fu farw ar 27 Ionawr. Mam, mam
yng nghyfraith, nain, hen nain
a chwaer annwyl. Bu'r angladd
ym Mynwent Eglwys Coetmor ar

ddydd Mawrth 15 Chwefror, yn
dilyn gwasanaeth yn ei chartref
dan arweiniad y Parch. Ddr. Huw
John Hughes a'r Parch. Casi
Jones.

Teulu'r diweddar Terence Wyn
Owen, Caernarfon, gynt o'r
Carneddi, a fu farw ar 25 Ionawr yn
64 mlwydd oed. Mab y diweddar
Doris, brawd i Iris a'r diweddar
Kenneth, ac ewythr hoff. 'Roedd
yn hoff iawn o beldroed ac yn
gefnogwr brwd o dîm Lerpwl.

Diolch

Dymuna Lois Eluned, arweinydd
Cylch Meithrin Bethesda ddiolch
o galon i Glyn ag Ann Y Bwl am eu
cyfraniad hael o £200 tuag at waith
y Cylch.

Yr Eglwys Unedig

Colled

Fel y crybwyllwyd yn rhifyn mis Chwefror,
'rydym fel Eglwys Unedig yn drist iawn o
golli Mrs Gwenno Evans. Bu farw Gwenno
ddydd Gwener, 5 Chwefror yn 89 mlwydd oed.
Cynhaliwyd gwasanaeth yn Amlosgfa Bangor
i ddiolch am ei bywyd, o dan arweiniad Y
Parchedig Ddr. Elwyn Richards a Mrs Nerys
Griffiths, gyda Mrs Menai Williams wrth yr
organ. Hyfryd oedd gweld yr adeilad yn orlawn,
a hyn yn tystio i'r parch arbennig oedd gan
bobl yr ardal i un a roes ei hoes, yng ngeiriau
arwyddair Urdd Gobaith Cymru, i Gymru, i gyd-
dynn ac i Grist. Talwyd teyrnged hyfryd, hwyliog,
a phersonol iawn i Gwenno gan Ioan Pollard, a
ddaeth yn ffrind arbennig iddi gan fod ei nain,
Mrs Jean Ogwen Jones, yn byw y drws nesaf iddi
am dros hanner canrif. Gwasanaethodd Gwenno
ei Harglwydd yn hynod o ffyddlon drwy ei hoes,
a mawr yw'r bwlb ar ei hôl yma yn Jerusalem,
fel blaenor, ac organyddes, ond yn fwy na dim

efallai am ei brwdfrydedd diddiwedd dros
achos Iesu Grist. Diolch am gael ei hadnabod.
Anfonwn ein cofion cynhesaf at Nia a'r teulu yn
eu colled.

Y bywyd uchel wêl ei waith
Ar hyd ei daith bob dydd;
A'r sawl yn Nuw a ymgryfha
A gaiff orffwysfa'r ffydd.

Cofion

Anfonwn ein cofion at yr aelodau hynny
sydd yn dioddef o anhwylder neu lesgedd y
dyddiau hyn, gan obeithio y daw'r gwanwyn
â chysur i chwi oll cyn hir.

Gweddi

Mae'n meddyliau i gyd gyda phobl Wcráin yn
y dyddiau tywyll yma, ac mae ein gweddïau
gyda hwy, gan obeithio y daw heddwch
iddynt yn fuan: 'Efengyl tangnefedd, o rhed
dros y byd'.

Oedfaon

Diolch o galon i'r canlynol am gynnal
oedfaon i ni yn ystod mis Chwefror:

Y Parchedig J Gareth Pair, Parchedig Ddr.
Elwyn Richards a'r Parchedig Cledwyn
Williams. Hyfryd oedd gweld, a chlywed dros
y ffôn, cynifer wedi troi i mewn i gydaddoli.

Gweithgareddau

Braf yw gallu cofnodi bod gweithgareddau
amrywiol yn digwydd yn adeiladau'r Capel.
Cynhaliwyd Dydd Gweddi Byd-eang yn ystod
y mis, a bydd adroddiad am y gwasanaeth
hwnnw yn rhifyn Ebrill o'r Llais.

Gwasanaethau

Mawrth 20: Y Parchedig Geraint Roberts (10)
Mawrth 27: Y Parchedig John Owen (10)
Ebrill 3: I'w drefnu
Ebrill 10: Mr Richard L. Jones (10)

Eglwys Crist, Glanogwen

Codi arian

Diolch i'r rhai sydd yn cofio am yr Apêl, mae'r
rhoddion gan gyn-aelodau yn help mawr.
Gallwn gynllunio ar gyfer y dyfodol bellach, yn
y gobaith bod y Cofid yn colli ei nerth. Diolch
hefyd i'r aelodau sydd wedi dal ati i gyfrannu
trwy'r Amlenni Rhodd, yn enwedig y rhai sydd
heb fod yn gyfforddus i fynychu'r gwasanaethau
oherwydd iechyd bregus. Gobeithiwn weld y
niferoedd yn cynyddu cyn bo hir, yn enwedig
pan fydd y tywydd yn cynhesu.

Trefnir Bore Coffi yng Nghanolfan Cefnfaes
ar Mawrth 26, a noson Bingo Pasg yn y Clwb
Criced a Bowllo nos Wener, Ebrill 8fed.

Hefyd mae cynlluniau ar y gweill ar gyfer
Cyngerdd Mawreddog mis Medi – mwy o
fanylion yn y rhifyn nesaf.

Enillwyr Clwb Cant mis Chwefror:

£50: Mrs Rhiannon Hughes, Bethesda
£20: Ms Llinos Williams, Tregarth
£20: Ms Pam Bestwick, Bangor

Tynnir y gwobrau lwcus yng Ngwesty'r
Douglas ar y nos Wener olaf o bob mis
am 7.30; croeso cynnes i bawb. Cofiwn yn
ein gweddïau am bawb sydd yn sâl neu'n
unig yn y gymuned, gan gynnwys y rhai
sydd yn hiraethu am anwyliaid; cofiwnch roi
gwybodaeth os gwyddoch am unrhyw un
sydd angen gweddi, ymweliad, neu Gymun yn
eu cartref.

Manylion Cyswllt

Llongyfarchiadau cynnes iawn i'r Hybarch
Mary Stallard ar ei phenodiad yn Esgob
Cynorthwyol Bangor. Rydym yn ddyledus
iawn fel Bro Ogwen am ei gofal drosom yn
ystod ein cyfnod heb ficer, a hi yw'r cyswllt ar
Llandudno 01492 876624, ynglŷn âg unrhyw
fater yn ymwneud â'r eglwys, gan gynnwys
trefnu priodas neu fedydd. Cofiwnch bod
Barbara (600530) a Glenys (600371) ar ben
arall y ffon os am gael sgwrs.



yn y
Clwb Criced, Bethesda
(Os bydd y tô wedi ei drwsio)

Nos Wener, 8 Ebrill
am 7 o'r gloch
Elw: Eglwys Crist Glanogwen

Pentir

Cynrig a Carys Hughes,
Rallt Uchaf, Pentir, LL57 4YB
(01248 601318)
carys16@hotmail.com

Gorsaf Drydan Pentir

Mae nifer o ardalwyr wedi bod cyd weithio gyda Chyngor Gwynedd er mwyn lleihau'r llygredd sydd yn cael ei greu gan oleuadau stryd. Mae'r datblygiad yma wedi ei groesawu gan y rhai hynny sydd â diddordeb mewn gwyllo'r sêr liw nos.

Siomiant o'r mwyaf yw'r datblygiad gan gwmni Morgan Sindall yng Ngorsaf Drydan Pentir. Mae'r cwmni wedi ennill y gwaith i uwchraddio'r cysylltiad trydan rhwng Llanberis 'r orsaf ym Mhentir. Mae nifer fawr o lifoleuadau wedi eu codi ar y safle sydd ymlaen drwy'r nos ac yn amharu ar yr awyr dywyll.

Mae'r cwmni wedi llwyr anwybyddu cwynion a dymuniadau trigolion lleol ynglŷn â'r goleuadau ac yn enghraifft arall o lygru cefn gwlad a difaterwch cwmnïau estron.

Gwellhad

Dymunwn wellhad buan i Marian Poulton, Pentir sydd wedi cael llawdriniaeth yn ddiweddar.

Eglwys St. Cedol

Er bod Eglwys St. Cedol wedi bob yn ddistaw yn ddiweddar ail agorodd ei drysau ar ôl y cyfnod clo yn fis Medi 2020 gyda gwasanaethau yn cael eu cynnal bob bore Sul, gan gadw at reolau llym diogelwch COVID-19. Fel pob cymdeithas arall mae wedi bod yn amser arswydus o anodd, er hynny parhaodd y gymdeithas oddi fewn i'r eglwys i gefnogi'r aelodau sydd yn ei chael yn anodd dychwelyd i'n plith oherwydd gofidion COVID-19. Mae'r aelodau hefyd yn parhau yn ei hymdrechion i godi arian trwy gynnal raffl hamper misol.

Yn ystod y cyfnod clo yn 2020 fe gafodd aelodau'r Eglwys ei harswydo o ddeall fod cost aruthrol ei angen i atgyweirio dros y pum mlynedd nesaf. Sialens enfawr o'n blaenau!!!

Llongyfarchiadau

Estynnwn ei llongyfarchiadau i'r Hybarch Mary Stallard, Archddiacon Bangor sydd erbyn hyn wedi ei phenodi yn

Esgob Cynorthwyol Bangor. Mae'n dyled ni fel eglwys iddi yn enfawr am ei gofal a'i pharodrwydd yn ystod cyfnod heriol heb arweinydd Bro Weinidogaethol.

Hefyd llongyfarchiadau i'r Canon Tracy Jones ar ei phenodiad i swydd Deon Bro Archddiaconiaeth Bangor, roedd gwasanaeth i'w chomisiynu prynhawn Sul, 20 Chwefror.

Cofion

Anfonwn ein cofion at ein warden David Emlyn sydd ddim wedi bod yn dda ei iechyd, brysiwch wella David. Anfonwn ein cofion at Mai a Vic y ddau wedi ymgartrefu mewn cartrefi preswyl, cofion cynnes atoch oll dau.

Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad at Jimmy Frith, Donna, Lea, Aaron, Anya a Guy yn eu profedigaeth o golli brawd ag ewythr annwyl, y ddiweddar William Frith, Ffordd Tan y

Bwlch, Mynydd Llandygai. Gwr bonheddig a chymunasgar, bydd colled enfawr ar ei ôl.

Te Bach

Bydd swyddogion Eglwys St. Cedol yn cynnal Te Bach ar brynawn Mercher cyntaf o'r mis am 2 o'r gloch y prynhawn. Bydd y Te Bach cyntaf ar y 6 Ebrill. Mae croeso cynnes i chwi ymuno a ni am baned a theisen.

Gwasanaethau

Cynhelir gwasanaeth bob bore Sul am 9.30yb ac mae croeso cynnes i bawb ymuno gyda ni yn y gwasanaethau, gyda phanad a sgwrs i ddilyn.

Manylion cyswllt

Os am drefnu priodas neu fedydd neu unrhyw fater arall yn ymwneud 'r eglwys cysylltwch hefo'r Hybarch Mary Stallard, Llandudno 01492 876624, cofiwch fod Nia(warden) 07719918686 yno i chi os am unrhyw wybodaeth arall neu gael sgwrs.

Arbenigwr mewn lloriau coed caled

A.G.L.
Lloriau

Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

www.llaisogwan.com
Trydar: @Llais_Ogwan

CANOLFAN CEFNFAES

Bore Coffi

EGLWYS GLANO GWEN
A LLANLLECHID

Sadwrn, 26 Mawrth 2022
10.00 – 12.00
Mynediad : £1.00

Arian i Ddatblygu Canolfan Cefnfaes

Wedi ymgynghoriad rhwng Partneriaeth Ogwen a Chyngor Gwynedd agorwyd y drws i'r posibilrwydd o gael arian i ddatblygu Canolfan Cefnfaes fel Canolfan Fentergarwch. Bydd hyn yn gyfle i sefydlu gofodau cymunedol , gofod gwaith(swyddfeydd, gweithdai) a byncws.

Dywedodd Craig ab Iago, aelod cabinet Tai ac Eiddo Cyngor Gwynedd, “ Trwy sicrhau prydles am y 10 mlynedd nesaf,

gall y gwaith i fwrw ymlaen gyda'r cynlluniau cyffrous hwn.” Aeth ymlaen “rydym yn falch o gefnogi gwaith cymunedol Partneriaeth Ogwen i ddod a bywyd newydd i'r safle”.

Rheolwr y datblygiad ar ran Partneriaeth Ogwen fydd Cynan Jones. Roedd yn falch fod penderfyniad Cyngor Gwynedd i brydlesu'r adeilad yn gam mawr ymlaen. Oherwydd hyn “oherwydd hyn agorwyd y drws i dderbyn grant o £225,000 o dan Rhaglen Adnoddau Cymunedol Llywodraeth Cymru. O dderbyn y grant fe fydd y gwaith adnewyddu yn cychwyn ar unwaith ac rydym ym Mhartneriaeth Ogwen yn ddiolchgar i Gyngor Gwynedd am hwyluso'r broses.”





CHWILAIR

MAWRTH

Stadau Bethesda

A	A	W	F	H	R	I	C	I	L	T	R	E	F	N	U	S	E	L	J
L	C	M	B	V	B	H	X	J	U	I	S	V	S	H	E	I	M	L	G
V	H	M	D	W	R	O	M	T	E	O	C	D	A	T	S	H	T	W	U
Z	M	X	V	A	D	D	N	A	A	P	A	U	Q	U	S	O	A	Y	F
R	P	Y	Q	Z	G	R	R	B	H	C	U	M	W	N	O	Y	N	N	R
I	A	S	Z	U	T	F	E	H	D	X	U	P	W	R	H	C	Y	B	Q
H	T	W	E	H	O	R	Y	E	O	E	G	E	O	M	H	E	G	E	P
T	T	N	C	B	C	B	C	U	U	S	J	P	L	T	M	I	A	D	V
V	D	C	A	A	B	B	F	R	F	L	Y	O	G	G	J	V	E	W	I
I	R	R	S	N	X	I	M	H	E	T	T	C	E	O	S	K	R	O	P
W	R	E	C	M	Y	K	C	H	B	O	R	S	O	C	X	V	R	Y	H
S	G	S	T	M	R	R	T	E	F	Y	A	J	D	E	Z	H	B	C	W
Y	O	S	C	R	A	E	W	I	X	C	N	I	L	X	D	J	J	M	B
N	W	T	E	X	B	M	D	A	L	X	K	F	U	P	C	Q	Y	O	I
Y	L	F	E	N	R	Z	Q	I	L	R	O	C	T	D	G	W	S	L	Z
R	E	B	O	E	A	J	C	K	J	L	C	L	N	L	R	V	O	G	J
Y	P	R	B	R	O	N	A	R	F	O	N	W	P	G	S	O	W	J	J
Q	B	U	L	F	S	V	M	A	E	S	A	T	H	R	O	T	X	E	U
G	H	S	L	Z	E	A	F	X	I	W	T	Z	H	K	V	A	G	B	N
K	A	D	S	I	K	O	G	D	H	B	S	I	U	R	O	X	A	G	X

Yn y Chwilair mis yma mae ENWAU DEUDDEG O STADAU BETHESDA i’w darganfod, Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i’r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn un llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y Chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn MAWRTH 25. Bydd gwobr o £10 i’r enw cyntaf allan o’r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna’r rhif agosaf fydd yn cael y wobr.

Cofiwch nid oes angen anfon tudalen y Chwilair o’r Llais i fewn i mi, bydd yr atebion

ar ddarn o bapur neu gerdyn yn iawn.


Yn anffodus Carys, roedd eich atebion i Chwilair Ionawr bron i pump diwrnod yn hwyr yn cyrraedd trwy’r post. Er hynny roeddynt i gyd yn iawn, felly gwell hwyl y tro nesaf.

Dyma atebion Chwilair Chwefror: Agor ein llygaid, (425); Agorwn ddrysau mawl, (3); Cenwch i’r Arglwydd, (37); Cyduned Seion Lân, (163); Cyffelyb un i’m Duw, (311); Daeth eto fore Saboth, (25); Diolchwn oll i Dduw, (135); I blith y ddau neu dri, (587); Jubilate Jubilate, (59); Mi godaf F’egwan lef, (770); Molwch ar yr Arglwydd, (57); O na bawn yn fwy tebyg, (721).

Dyma enwau’r rhai a gafodd yr atebion

cywir: Dilys Wyn Griffith, Abergele; Doris Shaw, Bangor; Nia Roberts, Rhiwlas; Gwenda Bowen, Gerlan; J. R. Jones, Yr Ynys, Llanllechid; Rhiannon Hughes, Llanfairfechan; Barbara Jones, Talybont; Olwen Davies, Bangor; Elizabeth Buckley, Tregarth; Nia Wyn Bagnall, Llandygai; Barbara Anne Conlan, Bethesda; Mrs Gwen Davies, Bethesda; Rosemary Williams, Tregarth. Diolch i Miss Sandra Howell, am roi cynnig ar y Chwilair, y tro cyntaf dwi yn meddwl, ond yn anffodus nid oedd yr atebion yn gywir. Daliwch ati a bob lwc y tro nesaf.

Enillydd Rhagfyr oedd: Barbara Jones, Dolhelyg, Talybont, Bangor, Gwynedd.



Cae Gwilym Ddu

(Gellir gweld erthygl ar y daliad hwn gan Dr John Llywelyn Williams yn y safwe Hanes Dyffryn Ogwen)

Roedd Cae Gwilym Ddu yn ddaliad o 56 acer, wedi ei leoli yn fras yn yr ardal ble heddiw mae Talybont Uchaf, Tyddyn Hendre, a Than Rallt. Oherwydd ad-drefnu ar ddaliadau a therfynau yn hendref Llanllechid rhwng 1840 ac 1860, mae'n hynod o anodd nodi'n union ble'r oedd yr hen derfynau. Bu cymaint o newid, fel y byddai yn hynod anodd gosod map o Lanllechid ar fap o'r ardal bresennol. Yn ogystal, mae'r A55 wedi torri trwy'r union ardal ble'r oedd tir Cae Gwilym Ddu. Digon yw nodi i Gae Gwilym Ddu ddiplannu, ac roedd hynny wedi digwydd cyn yr Arolwg Degwm, oherwydd nid yw'n ymddangos ar honno. Yn Arolwg 1765 mae'n ymddangos rhwng Cae Mawr a Winllan, ac yn terfynu ar Tan yr Allt, y ddau ddaliad cyntaf yn ddau arall sydd wedi diflannu, ond y gellir eu lleoli. Mae tŷ Cae Mawr heddiw ger Gatws, tra soniwyd am Winllan ar y safwe hon.

Mae cymhlethdod arall gyda daliad Cae Gwilym Ddu. Yn gyntaf, mae cae 16 acer ar y daliad gyda'r un enw, sef Cae Gwilym Ddu, sy'n awgrymu mai dyma ganolbwynt y fferm. Pan ystyrir fod darn arall o dir o'r enw Yr Allt Goed, yn 23 acer, yn rhan helaeth o'r 56 acer, ac yn amlwg yn dir anghynhyrchiol, mae'n sicr mai'r cae a enwyd yw canolbwynt y fferm. Y peth rhyfedd yw nad yw'n arferol cael yr un enw ar ddaliad ac ar gae ar ei dir. I gymhlethu pethau ymhellach, roedd dau gae o'r enw Cae Gwilym Ddu ar dir Tan yr Allt, a'r rheiny'n gaeau sylweddol o 10 ac 8 acer. A oedd y rhain, unwaith, yn rhan o ddaliad mwy gyda'r enw Cae Gwilym Ddu?

Yn Hanes Dyffryn Ogwen, mae Dr John Llywelyn Williams yn awgrymu y gallai mai Gwilym Brewys yw'r Gwilym Ddu, ac mai yma y'i claddwyd wedi ei grogi gan Lywelyn Fawr yn dilyn ei gamymddwyn gyda Siwan, gwraig Llywelyn. Mae'n amlwg fod hyn yn rhan o lën gwerin ardal Llanllechid pan ddaeth Pennant heibio ddiwedd y 18ed ganrif. Dyma ei eiriau ef:

'In my way, near a field called Cae Gwilim Ddu, is an artificial cave, in which (tradition says) was interred William de

Breos, executed by Llywelyn the Great, on suspicion of too great familiarity with his consort'.

Dri chwarter canrif yn ddiweddarach, mae Hugh Derfel Hughes, yntau, yn gyfarwydd a'r un traddodiad lleol, ond mae ef yn fwy amheus o'r traddodiad am gladdu Gwilym de Breos yno

'a phan agorwyd y garnedd yng Nghae Gwilym Ddu.... cael yn honno amryw gelfi o efydd na wyddid eu diben, a darn o freuan. Hwn yn ôl rhai oedd Gwilym de Breos ond tybia eraill y perthyn i gyfnod llawer cynt'.

Un peth diddorol yw fod Hugh Derfel yn cyfeirio at Gae Gwilym Ddu fel lle cyfarwydd iddo yn 1866, er nad oes cyfeiriad ato fel daliad annibynnol yn 1838-40.

Nid yw William William, yn ei gyfrol 'Observation on the Snowdon Mountains', 1802, ychwaith yn cysylltu Gwilym Ddu'r daliad gyda William de Braose. Dywed ef, wrth sôn am gromlechi cynoesol 'Another has been opened in my lifetime at a place called Cae Gwillim ddu, in the parish of Llanllechid. <<https://enwaudyffrynogwen.org/fffermydd/>>..... i'n which, as I have been informed, some brass utensils were found in a small chamber underneath. Byddai hyn yn cyd-fynd gyda dyddiad cynhanesyddol i'r gromlech hon, fel y gweddill, a byddai'r llestri pres, hwythau, yn cyd-fynd gydag arfer pobl Oes y Pres cynnar yn claddu eu meirwon yng nghromlechi eu gorffennol, sef Oes y Cerrig.

Rhaid inni dderbyn mai peth hynod beryglus yw rhoi coel yn ddi-gwestiwn ar ddilysrwydd traddodiad gwerin, yn enwedig felly mewn ymgeisiadau i egluro enwau lleoedd. Gellir edrych ar ymdrechion yn y Pedair Cainc i egluro enwau, megis Talybolion yn dod o'r lle y talodd Bendigeidfran ebolion i Fatholwch am ei sarhad, neu sawl enghraifft trwy hanes, gan gynnwys sawl un amheus gan Hugh Derfel ei hun. Dim ond gyda Syr Ifor Williams, rhyw ganrif yn ôl, y symudodd egluro enwau lleoedd yn y Gymraeg o fyd y ffansi a ffantasi i'r byd gwyddonol/ ieithyddol/ hanesyddol. Mae esboniadau gwerin yn gyffredinol yn tueddu i weld brwydrau a chladdfeydd arwyr hanesyddol neu chwedlonol yn y rhan fwyaf o enwau. Bu carneddau a thomenni claddu trwy'r oesoedd yn destun dirgelwch, ac yn y nawfed a'r ddegfed ganrif canwyd Englynion y Beddau, sy'n gweld beddau arwyr chwedlonol a hanesyddol yn y carneddau niferus oedd o gwmpas. Beth am Garnedd Dafydd, a Charnedd Llywelyn? A ydym yn credu heddiw mai dyma eu beddrodau? Cyhyd ag y mae Gwilym Brewys yn y cwestiwn, ar wahân iddo gael ei grogi gan Lywelyn Fawr, mae ansicrwydd hollol am bopeth arall, gan gynnwys man ei grogi. Y gred gyffredinol yw mai yng Nghastell Crogen, ger y Bala, y digwyddodd hynny, ond bu'r ansicrwydd yn ddigon i greu cysylltiad lleol yn Llanllechid. Mae sylw Hugh Derfel yn ein sicrhau mai carnedd cynoesol oedd ar dir Cae Gwilym Ddu, ac mae hynny, ynddo'i hun, yn ddigon i

fwrw amheuaeth cryf iawn ar gysylltiad y tir gyda Gwilym Brewys.

Gydag enwau lleoedd gweddol syml, mae'n llawer iawn mwy rhesymol, heb sôn am ddiogel, derbyn yr eglurhad syml, a pheidio ildio i demtasiwn y dychymyg. I ddechrau, pan ddilyni'r 'cae' gan enw person, y person hwnnw, fel arfer, oedd perchennog, neu denant, y cae, un ai yn wreiddiol, neu ar adeg pan ymsefydlogwyd yr enw. Am Gwilym, mae'n enw hynod o gyffredin yng Nghymru'r Canol Oesoedd, ac wedi hynny, ac mae Du yn epithet cyffredin iawn. Pwy na chlywodd am y bardd Robert ap Gwilym Ddu yn nechrau'r 19eg ganrif? Yn ogystal, yr wyf yn weddol sicr imi weld cyfeiriad at berson o'r enw Gwilym Ddu (neu fab i berson o'r enw) o Fodfeio <<https://enwaudyffrynogwen.org/a-b/>> fu'n gweinyddu ar reithgor yn Llys Caernarfon yn ail hanner y 14eg, a byddai hynny yn golygu ei fod yn dirfeddiannwr yn y drefgordd. (Oherwydd y cloi mawr ar hyn o bryd, nid wyf yn gallu cadarnhau).

O safbwynt enw'r daliad Cae Gwilym Ddu, byddwn yn barod i fentro mai enw daliad cyffredin wedi ei enwi ar ôl perchennog, neu ddeiliad, gyda'r enw cyffredin Gwilym, a'r epithet hynod gyffredin 'Du', sydd yn yr enw, ac mai ffansi'ol hollol yw cysylltu'r lle â Gwilym Brewys, oherwydd fod carnedd o Oes y Cerrig yn digwydd bod ar y tir. Wedi'r cwbl, fyddwn i ddim yn credu fod Arthur yn gorwedd mewn unrhyw ogof, na Rhita Gawr wedi ei gladdu ar y Wyddfa, mwy nag y byddwn yn chwilio am Gelert yn ei Fedd.

Nid yw, ychwaith, fel petai Gwilym Ddu ar ei ben ei hun mewn enw tir yn yr ardal. Dyma ichi rai tiroedd eraill – o amrywiol faintioli – yn Nyffryn Ogwen a enwyd ar ôl perchennog, neu ddeiliad mewn rhyw oes.

Cae Rhys Powel – 19 acer Maes y Penbwl
Bryn Robert William – 5 acer Maes y Penbwl
Cae Cadog Goch – 1 acer Aberogwen
Cae Gwalchmai – 19 acer Coed y Parc
Bryn Cae Heilyn – 8 acer Tai'r Meibion
Bryn Cae Heilyn Bach – 6 acer “ “
Bryn Cae Heilyn Coed – 7 acer “ “
Gweirglodd Barbra – 2 acer “ “
Gweirglodd Ellen – 4 acer “ “

Marchnad Ogwen

Ebrill 9fed

9.30am - 1pm

Lleoliad i'w Benderfynu

Bwydydd, Creffttau, Lleol

www.marchnadogwen.co.uk
Facebook

Rachub a Llanllechid

Emlyn Williams, Pont Llan, Llanllechid, Bangor, LL57 3LE
(07887624459) henbarc13@gmail.com

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn a theulu a ffrindiau Mr Vernon Davies a fu farw a ôl cryn waeledd yng nghartref Judith yn Sir Fôn. Roedd Vernon gynt o Lôn Groes, Fronchwith a Stad Yr Ynys, Rachub ac yn briod â'r diweddar Iris a thad annwyl i Judith a thaid i Sioned.

Apêl DEC

Ffoaduriaid Wcrain

Cynhelir

NOSON GOFFI

(gyda stondinau, raffl ac ati)

yn Ffestri Bethlehem, Talybont

Nos Fawrth, 29 Mawrth 2022 am 6.30yh

Mynediad : £1.00



DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy losgi coed

01248 605207

BARBWR OGWEN



Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant gan Alison
Rhaid gwneud apwyntiad.
Ffoniwch: 07796 038824

Capel Carmel

Colli Aelod

Bu farw Mrs Glenys Roberts, Hen Barc yn ystod mis Chwefror. Yng nghartref Plas Ogwen yr oedd hi wedi bod yn aros ar ôl iddi hi gael codwm yn ei chartref cyn y Nadolig. Bu'n rhaid iddi hi fynd i Ysbyty Gwynedd pan ddirywiodd ei hiechyd, ac, yn anffodus, mi fu hi farw yn y fan honno. Roedd Glenys yn aelod ffyddlon yng Ngharmel

ar hyd y blynyddoedd. Rydym ni'n cydymdeimlo â'i theulu, yn arbennig Brenda ei ffrind annwyl a chlòs, a'i chymdogion caredig hi.

Ysbyty

Drwg gennym glywed fod y Cyng. Godfrey Northam wedi cael triniaeth yn yr Ysbyty yn ddiweddar. Gobeithio ei fod yn gwell.

Clwb Dwyllo Prysur

Aeth aelodau'r clwb am dro yn ystod gwyliau hanner tymor mis Chwefror. Gan gychwyn o ysgoldy Carmel, cerddwyd ar hyd ffordd Llwyn Bleddyn i weld yr olion hynafol sydd wedi eu dadorchuddio yng nghaeau Rhosydd. Wedyn, aethant i ymweld â bedd R Williams Parry ym mynwent Coetmor a sylwi ar y garreg addurnedig, a rhoi golwg wedyn ar yr eglwys yn y fynwent arall. Ar ôl hynny, wrth fynd heibio i fferm Coetmor,

mi wnaethon nhw edrych ar olion y plas o'r oesoedd canol sydd i'w gweld o hyd yno. Ac wedi mynd heibio i hen gartref R Williams Parry, mi wnaethom droi i fyny Lôn Newydd gan weld cartrefi William Griffith a William Ellis Williams, Tyddyn Canol, cyn troi eto am adref. Diolch i Bryan Griffith am ddod am dro hefo ni ac i Stella Davies am ofalu am y bwyd ar y diwedd, ac wrth gwrs blasu ei chacennau sy'n arbennig o dda. Mi gawsom ni brynhawn braf o gerdded a chymdeithasu gyda'i gilydd.



Darlun o aelodau'r Clwb o flaen cartref y bardd William Griffith, Hen Barc.



Gyda'r papur a fin mynd i'r Wasg torrodd y newydd da bod Dion Wyn, yn wreiddiol o Rachub wedi ennill gwobr dan nawdd BAFFTA . Enillodd y wobwr am ei waith di-flino a gwirfoddol yn hybu y byd ffilmiau Cymraeg ac hefyd yn helpu i gydlyn yr unig Wyl ffilmiau Cymraeg drwy'r byd. Edrychwn ymlaen i gael mwy o'r hanes y tro nesaf.

Yr hawl i glywed

Wyddoch chi am berson byddar sy'n byw o'ch cwrmpas chi ?

Mae 'na dros 575,000 o bobl yng Nghymru gyda phroblemau clyw, yn ôl elusen RNID (Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar a Thwm eu Clyw). Mae cyfnod Cofid wedi dwysau eu problemau.

Wrth wisgo mygydau wyneb mae'n amhosib iddynt ddarllen gwefusau, oni bai fod y mwgwd yn un clir.

Yn ôl ystadegau tydi plant byddar ddim yn llwyddo mewn addysg cystal â phlant sy'n clywed gan nad ydynt yn cael y gefnogaeth gywir.

Does dim cydnabyddiaeth gyfreithiol i laith Arwyddo yng Nghymru na Lloegr a hynny'n rhoi baich ar aelodau'r teulu i ddehongli ar eu rhan mewn sefyllfa feddygol neu addysgiadol.

Ganed Nel Mai, o Fynydd Llandygai, yn fyddar, er ei bod bron yn 4 oed yn cael diagnosis. Yn fuan wedyn cafodd y gefnogaeth orau bosib gan ei hysgol gynradd ac yna uwchradd gan orffen y llynedd gyda chanlyniadau gwych yn ei Thagu.

Cafodd Nel bob cyfle posib mewn gwersi piano, nofio a dawnsio. Un o'i phrif ddiddordebau ydi dawnsio. Gwelsoch Rose Ayling-Ellis yn ennill Strictly Llynedd. Dyna i chi enghraifft wych bod posib gwneud unrhyw beth er eich bod yn fyddar.

Teimlo'r gerddoriaeth drwy'r ei chorff y mae Nel wrth ddawnsio yn hytrach na gwrandao ar y geiriau. Gall hyn fod o fantais gan nad yw hi'n canolbwyntio gormod ar y geiriau ond yn hytrach y rhythm ar beat. Trwy ddawnsio mae hyder Nel wedi tyfu ac mae hi'n gallu mynegi ei theimladau yn hawdd.

Diffygnodau yw'r problem arall sydd



yn ein hwynebu yn ddyddiol. Er bod laith Arwyddo Brydeinig o fantais tybed oes angen laith arwyddo yn Gymraeg? Wel na, gan mai Arwydd ydi'r laith. Mae modd ei fathu a gwneud y siâp ceg yn Gymraeg. Mae'n bwysig codi ymwybyddiaeth o broblemau person sydd â nam clyw neu dim clyw.


Cofiwch, wrth siarad hefo person byddar...

- Dal sylw'r person byddar
- Wynebu'r person wrth siarad hefo nhw
- Cyswllt Llygaid
- Siarad yn naturiol a chlr, does dim angen gwneud stumiau gyda'ch ceg
- Peidio rhoi eich llaw dros eich ceg.
- Dim dweud, 'dim ots'
- Un person i siarad ar y tro
- Lleihau sŵn cefndir
- Peidio gweiddi

COFIWCH AM - Wythnos laith Arwyddo 14 – 20 Mawrth, 2022

Gwefan Newydd

Gyda chwe mis ers dynodiad Safle Treftadaeth y Byd i Dirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru gan UNESCO, sefydlwyd gwefan newydd www.llechi.cymru a fydd yn cynnig cyfle i bobl yr ardal i rannu eu profiad nhw o bob agwedd o fyd y llechi. Ewch i'r wefan hon i weld beth sydd gan y wefan i'w gynnig. Sicrhawyd nawdd o Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a bu cydweithio rhwng Adran Dechnoleg Gwybodaeth a Gwasanaeth Twristiaeth y Cyngor er mwyn creu gwefan liwgar a deniadol. "Mae yna lawer mwy i lechi na toeon tai, ac rydym yn awyddus i weld y wefan yn gyfle i gysylltu gyda phobol yr ardal er mwyn rhoi cyfle iddynt rannu eu straeon a'u profiadau," meddai'r Cyng Gareth Thomas ar ran Cyngor Gwynedd. Aeth ymlaen i apelio ar i bobl leol ddefnyddio'r wefan, "i rannu eu storïau gyda ni fel lleisiau lleol trwy gysylltu â llechi@gwynedd.llyw.cymru





Manylion Cyswllt
Cyngorwyr Sir
Dyffryn Ogwen

Rachub, Carneddi, Gerlan, Braichmelyn
cyngorydd.paulrowlinson@gwynedd.llyw.cymru 01248 605365

Tregarth, Mynydd Llandygái
cyngorydd.dafyddowen@gwynedd.llyw.cymru 01248 605523

Bethesda
cyngorydd.rheinalltpuw@gwynedd.llyw.cymru 07789 742092

Llanllechid, Talybont, Llandygái, Aber, Tyn-y-Maes
cyngorydd.dafyddmeurig@gwynedd.llyw.cymru 07765 400140

[f](#) @CyngorwyrDyffrynOgwen [t](#) @PlaidCymruOgwen



Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando

Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos

0808 164 0123

Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

Natur o'n Cwmpas



Yr Ysgyfarnog

Roedd yr ysgyfarnog (*Lepus europeus*), neu'r sgwarnog fel y dywedwn ni, yn anifail cyffredin iawn mewn rhannau o'r ardal hon, ond erbyn heddiw mae'r anifail hwn wedi prinhau'n arw. Enwau eraill arni ydi 'pry mawr', 'cath eithin' a 'ceinach'.

Yn wahanol i'r gwningen, mae gan yr ysgyfarnog glustiau hir a go lydan er mwyn medru clywed synau bygythiol o bell, a dyma pam y cafodd ei henw, gan mai hen air am glust ydi 'ysgyfarn'. Mae ganddi hefyd goesau ôl hir i fedru dianc yn hwylus, yn enwedig ar gyfer rhedeg at i fyny. Pan fydd yn deall bod perygl gerllaw a hithau'n gorfod rhedeg at i lawr i'w osgoi, mae'n igam-ogamu ac yn troi i gyfeiriad tir uwch gynted ag y bo modd gan anelu at ddiogelwch llwyni eithin neu goedwig. Mae'n medru cyrraedd cyflymdra o tua 40 milltir yr awr.

Mae'r gwningen yn medru dianc i ddiogelwch ei thwll a'i thwneli, ond gwâl wrth fôn llwyn eithin neu wrych sydd gan ysgyfarnog. Dim ond rhyw bant bychan yn y gwair ydi gwâl, efo dim ond digon o le iddi orwedd rhag perygl yn ystod y dydd ac i fagu hyd at bedair lefren.

Yn yr 1950au a'r 1960au, un o'r llefydd gorau yn yr ardal hon i weld ysgyfarnogod fyddai ffridd Bronnydd Isaf. Gan fod cefnen eithinog yr ochr uchaf iddi, byddai'r ysgyfarnogod yn dod i lawr o'r eithin gyda'r nos i bori – i ddeintio, a bod yn fanwl – yn gysurus yn y ffridd islaw. Ar hafnos dawel, gallech weld hyd at ddeg ohonyn nhw, ran amlaf ar wahân i'w gilydd mewn gwahanol rannau o'r ffridd.

Yn y gwanwyn, pan welwch chi ddwy sgwarnog ar eu coesau ôl yn paffio, nid gornest rhwng dau fwch ydi'r digwyddiad

rhyfeddol, ond banw yn gwrthod sylw bwch yn ystod tymor cymharu.

Fel hyn y disgrifiodd Thomas Richards, Wern, Llanfrothen yr ysgyfarnog mewn englyn a ddaeth yn fuddugol yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru Sir Fôn 1957, y gorau o 274 o gynigion:

Iach, raenus ferch yr anial, –
hir ei chlust,
Sicr ei chlyw a dyfal;
Rhed o wewyr y dial
I'w byd ei hun heb ei dal.

.....

Wyddech chi ...?

- fod y sigl-i-gwt yn hoff iawn o fyw wrth ymyl lonydd wedi'u tarmacio oherwydd mae hi'n haws o lawer iddo weld a dal chwilod a thrychfilod eraill ar wyneb tarmac nag mewn gwair.
- fod yna dros 150 o eifr mynydd ar y Glyderau a Thryfan.
- fod y wennol ddu wedi mynd yn brin oherwydd colli lleoedd addas i nythu. Mae llai o dyllau mewn waliau adeiladau'n gyffredinol, ac mae nifer fawr o hen feudai ac ysguboriau wedi cael eu dymchwel neu eu troi'n dai gwyliau.

Mae'r golofn hon yn rhoi sylw i ryfeddodau a gwahanol agweddau ar fydd natur Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau, gan fanteisio ar wybodaeth leol ac ar ffynonellau eraill. Anfonwch eich cyfraniadau at Ieuan Wyn, Talgarreg, Ffordd Carneddi, Bethesda LL57 3SG ieuanwyn01@gmail.com 01248 600297.



Digwyddiadau Dyffryn Ogwen

Calendr Cymunedol Dyffryn Ogwen
Gweithgareddau gan Dyffryn Gwyrdd a Phartneriaid

Dyddiad	Digwyddiad a manylion
Digwyddiadau Wythnosol	Gardd Ffrancon – Gardd gymunedol a rhandiroedd ger Plas Ffrancon, sesiwn wythnosol bob Dydd Mawrth 11yb – 1yh Pantri Pesda – Rhannu bwyd dros ben o archfarchnadoedd, @57 Stryd Fawr Bethesda, am 5.30yh Dydd Sul a 7yh Dydd Mawrth Gofod Gwneud – Cyfle i greu yn defnyddio offer creadigol technoleg diweddaraf – drwy apwyntiad yn unig – cysylltwch: tom@ogwen.org
Mawrth 01/03 2 – 4yh	Dathliad Dydd Gŵyl Ddewi yng Nghefnfaes gyda Neville Hughes yn chwarae gitar a chacennau cri gan Dyffryn Gwyrdd
Gwener + Sadwrn 04 + 05/03 9:30 – 3yh	Rachub – Clirio eithin o anheddiad hynafol ar Foel Faban (rhaid bwcio o flaen llaw gyda Chymdeithas Eryri cyswllt: jen@snowdonia-society.org.uk
Gwener 11/03 4 – 5yh	Clwb Rygbi Bethesda – Plannu hadau blodau brodorol. Dewch â chribyn!
Sadwrn 12/03 12 – 4yh	Plannu coed , lleoliad i'w gadarnhau!
Llun 14/03 5 – 6yh	Abercaseg – Sesiwn casglu sbwriel (Dyddiad penodol yn dibynnu ar y tywydd)
Mawrth 15/03 2 – 4yh	Cefnfaes – Pnawn Coffi – Bingo
Mawrth 15/03 4 – 6yh	Gardd Ffrancon – Sesiwn plannu hadau llysiau efo'r lleuad llawn
Sadwrn 26/03	Trip i Ffair Hadau Conwy – Ydach chi isio ymuno â'r car cymunedol i fynd i'r ffair?
Sadwrn 23/03 11 – 3yh	Ffarm Moel-y-Ci – Dathliad y Gwanwyn Coed Lleol
Sul 27/03 2 – 4yh	Gardd Ffrancon – Cyfnewid hadau , sesiwn i rannu a derbyn hadau
Llun 28/03 6:30 – 7:30yh	Parc Meurig – Sesiwn casglu sbwriel (dyddiad penodol yn dibynnu ar y tywydd)
Mawrth 29/03 2 – 4yh	Cefnfaes – Pnawn Coffi – Datblygiad ac atgofion Cefnfaes gyda Cynan Jones

Am ragor o wybodaeth neu i gyfrannu: **harri@ogwen.org**

I ddechrau'r mis yma mi rannaf rhai o'r ymatebion a dderbyniais i golofn y mis diwethaf. Diolch i Dafydd Gwilym Jones, Pant Glas am ei gyfraniad. Roedd Dafydd yn crybwyll y gair 'swatio' fel ymateb i'r gair 'slentian' y mis diwethaf. Roedd yn arferol lapio'r dillad gwely amdanoch yn dynn er mwyn cadw'n gynnes a swatio yn y gwely. Dywedir wrth rywun am swatio os ydyw yn hel anwyd. Pan fyddai'n oer byddai hefyd yn dweud bod ei ddwylo yn 'crebachu' sef eu bod mor oer fel and oedd yn gallu eu rheoli na gwneud dim efo nhw.

Ambell i ddarllenwr hefyd yn cofio chwarae 'cadair a dinc a do'. Byddai dau blentyn yn croesi breichiau wedyn yn plethu

Iaith Pesda

dwylo er mwyn gwneud sê't i blentyn arall. Pe byddai rywun yn holi beth oedd yn mynd ymlaen yna yr ateb fyddai "paid a holi babi doli, gei di wbod bora fory."

A beth am y tywydd, pwy sy'n cofio'r arwydd arbennig? Pan fyddai storm ar ei ffordd o Ynys Môn yna byddai gwyllanod yn heidio i Ddyffryn Ogwen a clywid ambell un yn darogan storm gan bod 'Hogia Hiracl' wedi cyrraedd.



Bwyd

Dyma destun difyr arall sy'n amlygu peth o iaith Pesda. Swper chwarel sydd yn dod i'r meddwl yn syth wrth gwrs gan fod y chwarelwyr yn dod adref yn nosweithiol am ei swper chwarel, a'r gwagedd fel yr oedd yn arferol yn y dyddiau, a fu wrthi'n brysyr yn paratoi gan wneud prydau fel tatws pum munud, lobsgôws a swp pys. Ni does cymaint yn ei ddefnyddio heddiw ond mae yn dal yng ngeirfa'r ardal a thra bod plant ysgol yn cael eu trwytho mewn hanes lleol gobeithio na fydd yn mynd yn angof.

Beth ddefnyddiwyd chi i dorri bara? Wel 'twca' fel arfer a ddefnyddiwyd am gyllell fara yn yr ardal, a chan bod llawer o bobl bellach yn prynu mwy o fara sydd heb ei dorri'n barod, neu hyd yn oed yn pobi bara, efallai y caiff yr enw ail wynt!

Oeddach chi yn 'gloewi' neu'loefi' tatws, hynny ydi tollti'r dwr berwedig o'r sosban wedi iddynt fod yn barod? Rydw i'n dal i ddefnyddio'r gair, oes 'na rywun arall?

Fel y soniais cefais lythyr am Tyrchi Pei a dyma'r sylwadau a dderbyniais.

"Cofio fy nain yn gwneud tyrchi pei gan dorri crystyn neu cosyn fel oedd hi yn ei galw diwedd y bara, wedyn ei falu'n ddarnau a'i rhoi mewn powlen a rhoi dŵr poeth dros y bara a'u gadael am ychydig cyn gwasgu, neu

hidlo'r dŵr, fel y byddai nain yn ddweud. Ychwanegu menynd a'i gwasgu hefo fforc ac ychwanegu halen a phupur i dâst."

Cofio ei fam yn 'duo pys' oedd John Ffrancon Griffith sef tynnu'r pys allan o'u callod, a'r un modd efo ffa. Tybiai ei fod yn llygriad o'r gair 'deor'. Oes rhywun arall yn arfer y geiriau hyn, cysylltwch.

Ers talwm 'doedd fyw codi o'r bwrdd bwyd heb 'llnau y plât yn lân', sef bwyta'r bwyd i gyd. Dywed Iona, o Giltwillan gynt, y byddai ei mam yn ei siarsio i beidio 'sbwrianu'. Ydych chi'n gyfarwydd â'r gair?

Ambell air

Beth am ein harfer o roi llafariad ychwanegol at air e.e.'rhwyl' yn hytrach na 'rhwd' 'cwrwyd' yn hytrach na 'cwrwd' torri 'ffoes' yn hytrach na 'ffos' a llawer mwy tybiaf?

Dyma restr fer o wahanol eiriau, beth yw eu hystyron tybed.

mynd yn fflwt - hel clecs

Cacan glatsh - dwnjwr

Un garw dio - fflonsh

Edrychaf ymlaen am ymateb

Ac i orffen

Jên - Be ti am wneud efo'r tail na Wil?

Wil - Ei roi o dros y riwbob.

Jên - Cwsdad fydda i'n roi dros riwbob!

Y Gerlan

Caren Brown, Cilwern,
14 Ffordd Gerlan, Bethesda, LL57 3ST.
(01248 602509 / 07789 916166)
carenelaine@hotmail.com

Linda Brown, 1 Gwernydd, Gerlan, Bethesda,
LL57 3TY. (01248 601526)

Dathlu pen-blwydd arbennig

Pen-blwydd hapus iawn i Pedr Owen, Llwyn Rhandir, Ciltwillan, ar ddathlu ei ben-blwydd yn 21 - gobeithio dy fod wedi mwynhau dathlu efo'r teulu Pedr.

Un arall a fu'n dathlu ei phenblwydd hithau'n 21 oed oedd Cadi Elen 'Rallt Uchaf, Gerlan. Gobeithio dy fod tithau wedi mwynhau'r dathlu adra efo'r teulu ac yng Nghaerdydd.

Rhodd arbennig

Nid oedd yn newyddion da clywed na fyddai Clwb Cymdeithasol Gerlan yn parhau i gyfarfod yn y Caban eto. Hoffai Pwyllgor y Caban ddiolch yn fawr iawn i'r Clwb am y rhodd ariannol i'r neuadd.

Llwyddiant ar y Cae Rygbi

Llongyfarchiadau mawr i Gruff Hughes, Ciltwillan, ar gael ei ddewis i sgwad dan 16 RGC. Pob dymuniad da iti efo'r hyfforddai a'r gemau sydd i ddod. Bydd hyn yn gyfle a phrofiad gwych iti Gruff. Mwynha pob eiliad!

Cydymdeimlo

Gyrrwn ein cydymdeimlad dwysaf at Helen a Merfyn Williams Ciltwillan a'r teulu gan eu bod wedi colli sawl aelod agos o'r teulu yn ddiweddar. Bu farw brawd Helen, Gwilym Roberts, a oedd yn byw yn yr Amwythig, Janet ei wraig a Shirley Dwyer eu merch - i gyd o fewn cyfnod brawychus o sydyn i'w gilydd. Mae Helen hefyd wedi colli ei nith, sef Janice Thomas. Cofion cynhesaf atoch i gyd Helen yn ystod yr amser tywyll yma.

CAFFI COED Y BRENIN

1 Rhes Buddug, Bethesda
Ffôn: 01248 602550

Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)

Cinio arbennig bob dydd lau

Bwyd i'w gario allan

Gwasanaeth arlwygo ar gyfer partïon o bob math - plant, pen-blwydd ac ati (yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)

Prisiau rhesymol

ORIAU AGOR

D. Mercher, lau, Gwener 8.00 - 2.30

Gadewch i
Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

Chwaraeon

Tîm Ieuenctid llwyddianus Bethesda

Diwedd y flwyddyn ddiwethaf llwyddodd y tîm dan 10 oed Clwb Bethesda i ennill Cystadleuaeth Cwmni Coed W.A.W. Bu'r gystadleuaeth yn rhedeg dros chwe wythnos yn nhymor yr Hydref ac roedd brwdfrydedd yr hogiau yn arbennig iawn dros y cyfnod. Trechwyd tîm Bryn Rhosyr yn y rownd derfynol a hynny mewn gêm gystadleuol a chwaraewyd y gêm yn yr ysbryd cywir gan y ddau dîm. Dengys bod sefyllfa pêl-droed ieurntid ar lawr gwlad yn nwylo diogel yng Ngwynedd a Môn. Mae'r clwb am ddiolch i Geth a Gav am drefnu'r holl gystadleuaeth mor broffesiynol.



Clwb Criced a Bowllo Bethesda

TYMOR NEWYDD

Bydd y Clwb Criced a Bowllo yn ail-agor unwaith eto yn fuan ym mis Ebrill ar ôl bod ar gau am gyfnod oherwydd difrod y stormydd diweddar i ran o'r adeilad.

Mae'r gwaith atgyweirio bellach wedi ei dechrau a gellir llogi'r clwb ar gyfer amryw o ddigwyddiadau, am fwy o wybodaeth cysylltwch drwy cricedbethesdacricket@outlook.com

Bydd y tymor criced yn dechrau yn ystod Ebrill, gyda'r tîm 1af gartref yn erbyn Caernarfon Ebrill 23ain. Bydd yr ail dîm (a dderbyniodd ddychafiad tymor diwethaf) yn teithio i Brymbo ar yr un diwrnod.

Mae'r tîm Merched yn bencampwyr Gogledd Cymru ar hyn o bryd a byddent yn dechrau eu hamddiffyniad o'r Gynghrair ar ddechrau mis Mai gyda gemau yn erbyn Bae Colwyn a Dolgellau.

Bydd hyfforddiant i'r tîmau ieuenctid yn dechrau diwedd fis Ebrill ar gyfer oedrannau ysgolion cynradd ar nos Wener rhwng 6 a 7yh, a'r oedrannau ysgolion uwchradd (dan 13 a dan 15) ar nos lau rhwng 5 a 6yh. Mae croeso i chwaraewyr newydd lymuno a ni.

Bydd y tîmau bowllo lawnt hefyd yn dechrau eu gemau Cynghrair ym mis Ebrill, gyda'r clwb yn rhedeg tîm ar brynawn Sadwrn yn Adran C, Cynghrair Arfordir Gogledd Cymru. Bydd tîmau eraill yn chwarae ar nos Lun, prynhawn dydd Mawrth a phrynhawn Mercher.

Mae'r adrannau Criced a Bowllo pob tro'n croesawu chwaraewyr a gwirfoddolwyr newydd, os oes gennych ddi-ddordeb bod yn rhan o'r clwb Mae croeso i chi gysylltu am fwy o wybodaeth drwy e-bostio cricedbethesdacricket@outlook.com

Mae amser o hyd i gyfrannu, un ai'n uniongyrchol yn y clwb neu drwy e-bostio cricedbethesdacricket@outlook.com am y linc noddï ar-lein. Diolch I bawb a gyfrannodd hyd yma.

HER SNWCER 24 AWR ER COF AM GYD-CHWARAEWR SNWCER

Yn ddiweddar, ymgymerodd Capten Snwcer Bethesda, Dylan Parry, â'r her o chwarae snwcer yn barhaus am 24 awr.

Cymerodd y fenter le yng Nghlwb Criced a Bowllo Bethesda, sy'n gartref i dîm snwcer Bethesda. Gyda'r her yn dechrau am 6yh ddydd Gwener 21ain o Ionawr ac yn dod i ben am 6yh ar ddydd Sadwrn 22ain o Ionawr.

Roedd pwrpas yr her yn un ddeublyg - yn gyntaf er cof am ffrind a chyd-chwaraewr Snwcer ym Methesda, Dylan Rowlands, a fu farw'r llynedd ar ôl trawiad ar y galon. Ail bwrpas yr her, oedd codi arian tuag at osod diffibriliwr tu allan i'r Clwb Criced a Bowllo, lle chwaraeodd Dylan Rowlands am nifer o flynyddoedd.

Bydd y diffibriliwr o fudd i ardal Bethesda gyfan a bydd yn cael ei roi y tu allan i'r clwb i unrhyw un sydd angen ei ddefnyddio.

Yn ystod yr her chwaraeodd Dylan Parry 75 o fframiau snwcer, gan ennill 52 ohonynt. Cymerwyd dros 17,000 o gamau wrth gerdded 7.7 milltir o amgylch y bwrdd snwcer. Cafodd 2,250 o beli eu potio a sgoriwyd 7,875 o bwyntiau yn ystod yr her.

Hoffai Dylan ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu yn ogystal â'r rhai a gymerodd ran, cymysgedd o aelodau'r clwb a chwaraewyr snwcer lleol a chwaraeodd fframiau yn ei erbyn a chadw ei ysbryd i fyny drwy'r holl oriau. Hyd yn hyn, mae £1,200 wedi'i gasglu i gynorthwyo cronfa diffibriliwr.

LLWYDDIANT AR GAE RYGBI

Llongyfarchiadau mawr i Huw Davies sy'n ddisgybl blwyddyn 13 yn Ysgol Dyffryn Ogwen ar dderbyn cytundeb tair blynedd fel chwaraewr rygbi proffesiynol gyda chlwb 'Sale Sharks'. Bydd yn cychwyn ddechrau Gorffennaf.